



# Cynllun Strategol y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc 2023-2026

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend
County Borough Council

## Cynnwys


| | Teitl | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Rhagair | 3 |
| 2 | Cyflwyniad | 4 |
| 3 | Themâu | 6 |
| 4 | Crynodeb Gweithredol | 66 |
| 5 | Hunanwerthusiad a chrynodeb uchelgais | 68 |
| 6 | Aliniad polisi ac arweiniad | 69 |
| 7 | Geirfa | 70 |
| 8 | Amserlen | 72 |




# Rhagair

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc ('y gyfarwyddiaeth') yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu ystod eang o wasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau plant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Er bod y gyfarwyddiaeth yn falch o'r gwaith y mae'n ei wneud, rydym yn cydnabod bod llawer o heriau yn parhau os ydym am sicrhau bod ein gwasanaethau addysg, blynyddoedd cynnar a phobl ifanc yn gallu addasu i ddiwallu anghenion ein preswylwyr.

Mae'r cynllun strategol hwn yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer dyfodol gwasanaethau addysg, blynyddoedd cynnar a phobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn dwyn ynghyd ein huchelgeisiau a'n nodau gweithredol i fynd i'r afael ag effaith tlodi a chefnogi pobl i fyw bywydau iachach a llewyrchus.

Ein nod yw sicrhau tegwch a rhagoriaeth i bawb.



**Cyng Huw David**
Arweinydd



**Cyng Jane Gebbie**
Dirprwy Arweinydd
Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd



**Cyng Jon-Paul Blundell**
Aelod Cabinet dros Addysg



**Cyng Hywel Williams**
Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a'r Gyfraith



**Cyng Neelo Farr**
Aelod Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Llesiant



**Cyng Alex Williams**
Cadeirydd
Pwyllgor Trosolwg ac Archwilio Pwnc 1



**Ellie O'Connell**
Maer
Cyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr



**Kathryn John**
Cadeirydd
Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd Pen-y-bont ar Ogwr



**Ravi Pawar**
Cadeirydd
Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr



**Tom Beedle**
Cadeirydd
Cymdeithas Llywodraethwyr Pen-y-bont ar Ogwr



**Mark Shephard**
Prif Weithredwr



**Lindsay Harvey**
Cyfarwyddwr Corfforaethol
Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc

# Cyflwyniad

## Cyd-destun

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBS Pen-y-bont ar Ogwr) yn awdurdod lleol yn Ne Cymru gyda chyfanswm poblogaeth o tua 145,000. Mae'r Sir wedi'i lleoli yng nghalon ddaearyddol De Cymru. Mae ei arwynebedd tir o 285 cilomedr sgwâr yn ymestyn 20km o'r dwyrain i'r gorllewin ac yn meddiannu cymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr. Y dref fwyaf yw Pen-y-bont ar Ogwr, ac yna Maesteg, Pencoed a thref glan môr Porthcawl. Mae cyfanswm o 51 o aelodau etholedig, yn cynrychioli 28 ward.

Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yw cyfarwyddiaeth fwyaf CBS Pen-y-bont yr Ogwr gyda chyllideb refeniw flynyddol o fwy na £175m a thua 4,000 o staff. Mae'r gyfarwyddiaeth hefyd yn gyfrifol am brosiect buddsoddi cyfalaf mwyaf CBS Pen-y-bont ar Ogwr (hynny yw, y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion).

Mae'r gyfarwyddiaeth yn cynnwys 6 maes gwasanaeth, a wasanaethir gan 28 o dimau gweithredol, 59 o ysgolion ac 1 uned atgyfeirio disgyblion. Oherwydd cymhlethdod a natur eang y gyfarwyddiaeth, mae'n hanfodol bod gweithgarwch y gyfarwyddiaeth yn cael ei lywio gan weithdrefnau llywodraethu, strategol a gweithredol cadarn. Er mwyn sicrhau bod y prosesau hyn yn addas i'r diben, mae'r gyfarwyddiaeth yn mabwysiadu protocol hunanarfarnu aeddfed sy'n llywio dull cynllunio busnes cynhwysfawr. Mae'r cynllun strategol tair blynedd hwn yn rhan bwysig o fodel cyflawni'r gyfarwyddiaeth gan ei fod yn galluogi aliniad clir â pholisi cenedlaethol a blaenoriaethau a bennir yn lleol.

Datganiad cenhadaeth y gyfarwyddiaeth yw:



Rhestrir cyflawniadau allweddol y gyfarwyddiaeth isod:

- ysgolion sy'n arwain yn y sector (a gefnogir gan wasanaethau proffesiynol effeithiol) sy'n darparu cyfleoedd dysgu rhagorol i sicrhau canlyniadau rhagorol i bob dysgwr;
- gweithdrefnau diogelu cadarn ar draws holl feysydd gwasanaeth y gyfarwyddiaeth;
- Rhaglen Moderneiddio Ysgolion uchelgeisiol;
- gwasanaethau cymorth i'r teulu rhagorol a ddarperir gan y bobl gywir, ar yr adeg gywir, i'r rhai sydd â'r angen mwyaf;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid effeithiol (gan gynnwys darparu gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid priodol);
- cynnig dysgu oedolion o ansawdd dda;
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg effeithiol i hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg;
- cymorth rhagorol i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a
- chyngor iechyd a diogelwch effeithiol i bob maes o fusnes y cyngor.

Mae heriau allweddol y gyfarwyddiaeth yn cynnwys:

- effaith sylweddol, barhaus COVID-19 (gan gynnwys ymddygiad, presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion);
- pwysau cyllidebol (yn enwedig cludiant o'r cartref i'r ysgol a'r rhaglen moderneiddio ysgolion);
- diwygio'r cwricwlwm ac ADY;
- materion capasiti (yn enwedig mewn meysydd arbenigol a statudol); a
- chydymffurfiaeth a monitro iechyd a diogelwch corfforaethol.

## Polisi cenedlaethol a blaenoriaethau lleol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Cymeradwywyd Cynllun Corfforaethol 2023-2028 a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2023-2027 gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr ar 1 Mawrth 2023.

Mae'r ddwy ddogfen yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn gwneud cysylltiadau amlwg rhwng amcanion llesiant CBS Pen-y-bont ar Ogwr, a'r adnoddau a gyfeirir i'w cefnogi.

Mae 'Ein Cenhadaeth Genedlaethol: Safonau a dyheadau uchel i bawb' (Llywodraeth Cymru, 2023) ('y genhadaeth genedlaethol') yn nodi ystod o flaenoriaethau i sicrhau llwyddiant, safonau uchel a lles pob dysgwr.

Mae'r cynllun strategol tair blynedd hwn yn adlewyrchu dyheadau Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028 ac mae'n cyd-fynd yn agos â'r amrywiol yrwyr polisi a nodir yn y ddogfen hon.

## Themâu

Yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni, mae'r Gyfarwyddiaeth Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc wedi nodi'r 15 'thema strategol' a ganlyn i danategu'r cynllun strategol tair blynedd hwn:

- **T1** **Lles disgyblion a staff**
- **T2** **Cefnogaeth ar gyfer ymddygiad, presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion**
- **T3** **Cefnogaeth i blant a phobl ifanc bregus**
- **T4** **Cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag ADY**
- **T5** **Cwricwlwm i Gymru ac asesu**
- **T6** **Addysgu a dysgu o ansawdd dda**
- **T7** **Arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol**
- **T8** **Gweithdrefnau diogelu cadarn ar draws holl feysydd gwasanaeth y gyfarwyddiaeth**
- **T9** **Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Uchelgeisiol**
- **T10** **Gwasanaethau cymorth priodol i deuluoedd yn cael eu darparu gan y bobl gywir, ar yr adeg gywir, i'r rhai sydd â'r angen mwyaf**
- **T11** **Cynnig gofal plant a blynyddoedd cynnar effeithiol**
- **T12** **Gwasanaethau cymorth ieuenctid a chyfiawnder ieuenctid effeithiol**
- **T13** **Cynnig dysgu ystyrlon i oedolion yn y gymuned**
- **T14** **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg effeithiol i hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg**
- **T15** **Cyngor iechyd a diogelwch effeithiol i bob maes o fusnes y cyngor (sicrhau gwydnwch a pharhad busnes)**

Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn blaenoriaethu ein hymdrechion ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael o amgylch y themâu hyn er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r plant, y bobl ifanc, yr oedolion a'r teuluoedd y mae'r gyfarwyddiaeth yn falch o'u gwasanaethu.

Mae adran nesaf y cynllun hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am y gyrwyr polisi mewn perthynas â phob un o'r themâu hyn. Yn yr adran hon, ceir fanylion am y gwaith sydd wneud hyd yma a'r gweithgarwch sydd angen ei wneud i wella canlyniadau dros y tair blynedd nesaf.

## Canllawiau hunanwerthuso


Mae'r gyfarwyddiaeth yn defnyddio'r raddfa hunanwerthuso CAMG ganlynol (hynny yw, coch (neu anfoddhaol), ambr (neu foddhaol), melyn (neu dda) a gwyrdd (neu ragorol)) i asesu perfformiad a chynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd.

Rhennir pob cam yn dair rhan (rhan uchaf/canol/isaf) i fireinio ein barnau hunanwerthuso ymhellach.

Felly, mae pob maes gweithgaredd yn cael sgôr rhwng 1 a 12.

Mae maes gweithgaredd a gafodd sgôr o '1' yn agwedd y bernir bod ganddi wendidau sylweddol a lle mae angen gwelliant ar unwaith.

Mae maes gweithgaredd a gafodd sgôr o '12' yn agwedd ragorol.



# Thema 1

## Lles disgyblion a staff



# T1: Lles disgyblion a staff

## Crynodeb

Mae gwir effaith COVID-19 ar les bellach yn dechrau cael ei gweld ledled Cymru gan gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod lles disgyblion a staff yn hollbwysig er mwyn i'r gymuned ysgolion ffynnu.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod o gymorth i gynorthwyo ysgolion i gefnogi iechyd meddwl mewn ysgolion. Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg (GSA) yn parhau i weithio ar dair lefel wahanol i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Maent hefyd yn cefnogi staff ysgol a theuluoedd ar draws yr awdurdod lleol. Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno'r adnodd proffilio ar-lein 'The PERMA profiler' a ddefnyddir mewn ysgolion i nodi, monitro a gwella 'proffiliau llesiant' disgyblion a staff.



Lansiwyd y prosiect PERMA yn ffurfiol i bob ysgol ar draws y rhanbarth ym mis Tachwedd 2019. Mae'r GSA yn parhau i hyfforddi cynorthwywyr cymorth llythrennedd emosiynol (ELSAs) mewn ysgolion, ar ôl symud i lwyfan hyfforddi ar-lein oherwydd y pandemig. Mae ELSAs yn gweithio gyda grwpiau a disgyblion unigol i ddarparu cymorth llythrennedd emosiynol a rhaglenni i gefnogi lles plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.


Mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Gwasanaeth Seicoleg Addysg Rhondda Cynon Taf, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion (CAMHS) a GSA Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r prosiect 'Mewngymorth' ysgol gyfan sy'n darparu timau iechyd meddwl i gefnogi plant a phobl ifanc ac ysgolion ar draws Pen-y-bont ar Ogwr.

O safbwynt Cymorth i Deuluoedd, mae ystod eang o wasanaethau ataliol y gall ysgolion eu defnyddio i gefnogi plant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys gweithwyr cymorth i deuluoedd, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, cwnselwyr mewn ysgolion, gweithwyr arweiniol (gweithwyr ieuenctid), swyddogion lles addysg, gweithwyr lles emosiynol a chwnselwyr cymunedol.

Mae Cymorth Cynnar a Chymorth i Deuluoedd a'r GSA yn ymwybodol iawn bod ffocws cynyddol ar les ac adferiad wrth symud ymlaen, yn ogystal â'r gwaith sydd wedi'i amlinellu. Bydd llesiant ac iechyd meddwl da yn parhau i fod yn sail i'r holl waith ymgynghori ac ymyrryd.

Fel rhan o'r adolygiad o ddarpariaeth strategol anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mae adnoddau ychwanegol wedi'u rhoi yn Narpariaeth Amgen y Bont i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl ond nad ydynt wedi cael diagnosis gan CAMHS.

Mae'r fframwaith ynghylch gwreiddio ymagwedd ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol (2021) yn cael ei dreialu ar hyn o bryd gan rai ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cynhelir gwerthusiad o'r cynlluniau peilot hynny yn ystod tymor yr haf 2023.




## Sgôr presennol




## Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- gweld plant, pobl ifanc, teuluoedd a staff yn dangos gwydnwch mawr, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19;
- elwa ar gefnogaeth ragorol gan Adnoddau Dynol, iechyd galwedigaethol ac amrywiaeth o dimau eraill (er enghraifft, y cynnig Gofal yn Gyntaf a Lles);
- gweld rhai staff yn addasu i'r trefniadau gweithio hybrid newydd ac yn dangos hyblygrwydd;
- cyflwyno rhaglen cyfoethogi gwyliau ysgol 'Bwyd a Hwyl';
- cyflwyno'r cynnig prydau ysgol gynradd am ddim (UPFSM) cyffredinol yn llwyddiannus i bob disgybl Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2;
- canolbwyntio mwy ar ddatblygiad unigol plant a phobl ifanc (yn enwedig o ystyried y newidiadau i fesurau atebolrwydd);
- penodi Swyddog Iechyd a Lles;
- sefydlu grŵp llesiant i gyflogeion y Cyngor;
- gwneud pamffledi iechyd a lles ar gael i bob aelod o staff; a
- darparu hyfforddiant i staff mewn perthynas â rheoli absenoldeb, cynnal sgyrsiau anodd a rheoli pwysau.



## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- leihau pwysau allanol ar bob aelod o staff ar bob lefel;
- gweithio gyda rheolwyr i sicrhau bod lles yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel a hyrwyddo cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith;
- cyflwyno rhaglenni cymorth penodol ar gyfer uwch arweinwyr mewn ysgolion;
- datblygu astudiaethau achos i rannu arfer effeithiol;
- datblygu'r Rhaglen Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Dan Anfantais (RADY);
- gweithredu cynllun datblygu'r gweithlu a darparu hyfforddiant effeithiol a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP);
- datblygu'r Rhaglen 'Bwyd a Hwyl' i sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn elwa o'r ddarpariaeth;
- cyflwyno'r cynnig UPFSM i bob disgybl ysgol gynradd;
- sicrhau bod cymorth i deuluoedd yn gyson ar draws y fwrdeistref sirol;
- datblygu polisïau cyffredin i gefnogi partneriaeth cartref-i-ysgol;
- sicrhau bod ein darpariaeth yn gyson â pholisi a disgwyliadau Llywodraeth Cymru;
- datblygu model cymorth ysgol gyfan effeithiol ar gyfer lles emosiynol a meddyliol gan ddefnyddio Fframwaith NEST (Meithrin, Grymuso, Diogelu ac Ymddiriedaeth);
- datblygu gwasanaethau iechyd meddwl mwy effeithiol i blant a phobl ifanc;
- creu rhaglen gymhelliant i wella cyfraddau cadw staff a recriwtio;
- datblygu cytundeb partneriaeth gydag undebau llafur;
- gwella mynediad at adnoddau lles ar gyfer cyflogeion ar y safle a chyflogeion sydd â mynediad prin at liniadur neu gyfrifiadur gwaith; a
- defnyddio barn y gweithlu i lywio gwelliannau, datblygu a chymell cyflogeion a gwella cyfraddau dargadw staff.

## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, byddwn:

- yn gofyn am gymorth gan gydweithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i gefnogi themâu sy'n dod i'r amlwg;
- yn cynnig gweithdai/cymorthfeydd datblygiad proffesiynol;
- angen cymorth gan arbenigwyr (er enghraifft, therapi chwarae);
- yn datblygu gweithio ysgol-i-ysgol ymhellach (mewn clystyrau/ar draws clystyrau/ar draws cyfnodau); ac
- yn sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei lywio gan ystod o bolisïau cyffredin.

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gwella;
- darpariaeth ac adnoddau priodol ar gael i gefnogi lles yr holl ddisgyblion;
- adborth gan ddisgyblion o ran eu lles o leiaf yn 'dda' ym mhob lleoliad;
- cyfraddau absenoldeb staff yn gostwng; ac
- ein gallu i recriwtio a chadw staff, yn enwedig mewn meysydd targedig, yn gwella.

## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| **Amcan Lles 6** | Byddwn yn ymestyn darpariaeth y Rhaglen 'Bwyd a Hwyl' ym mis Gorffennaf/Awst 2023 i sicrhau bod o leiaf 80 o ddisgyblion yn elwa o'r ddarpariaeth hon. |
| **Amcan Lles 7** | Byddwn yn cyflwyno prydau ysgol gynradd am ddim i bob dysgwr ysgol gynradd erbyn mis Medi 2024. |




# Thema 2

## Cefnogaeth ar gyfer ymddygiad, presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion

# T2: Cefnogaeth ar gyfer ymddygiad, presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion

## Crynodeb

Mae ymddygiad disgyblion yn dod yn bryder cynyddol i ysgolion ac i'r awdurdod lleol. Mae tystiolaeth bod ymddygiad yn dod yn fwy problematig gan arwain at gynnydd mewn gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol. Mae'r ymddygiadau a welir mewn ysgolion yn bennaf yn gynnydd mewn ymddygiad ymosodol geiriol a chorfforol tuag at oedolion a phlant eraill ynghyd ag ymddygiad parhaus ac aflonyddgar.

Yn ystod y flwyddyn ysgol ddiwethaf (2021-2022), bu cynnydd o 100% yn nifer y gwaharddiadau parhaol o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol (a oedd yn cynnwys COVID-19 a chau ysgolion yn ystod y cyfnodau hynny).

Mae gwaharddiadau cyfnod penodol hefyd yn bryder gydag ymddygiad disgyblion yn cael ei gofnodi o ran ymddygiad ymosodol ar lafar a chorfforol, ymddygiad parhaus ac aflonyddgar. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion uwchradd ym Mhen-y-Bont ar Ogwr yn uwch nag yn y blynyddoedd ysgol gyfan blaenorol. Roedd 827 o waharddiadau ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cyfateb i 1426.5 o ddiwrnodau ysgol a gollwyd rhwng Medi 2021 a 20 Mawrth 2022. Mae'r rhain wedi cynyddu rhwng Medi 2022 a 20 Mawrth 2023 gyda 916 o waharddiadau ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cyfateb i 1814 o ddiwrnodau ysgol a gollwyd.

Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud i sicrhau bod ysgolion yn dilyn yr ymateb graddedig yn gyson, yn defnyddio eu hadnoddau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad ac yn defnyddio adnoddau awdurdodau lleol mewn modd amserol. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn bwriadu cyflwyno hyfforddiant a gweithdai i gefnogi ysgolion i ddefnyddio'r broses hon yn gymesur ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae Arweinydd y Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd (CART) hefyd wedi'i wahodd gan y Tîm Cefnogi Ysgolion i siarad â'u rhwydweithiau proffesiynol o arweinwyr bugeiliol/penaethiaid blwyddyn i helpu i rannu strategaethau i gynorthwyo gyda'r materion uchod.

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn flaenoriaeth i'r gyfarwyddiaeth. Bu gostyngiad mewn lefelau presenoldeb mewn ysgolion yn genedlaethol sydd wedi'i effeithio gan y pandemig. Er bod lefelau presenoldeb ysgolion yn dechrau dangos cynnnydd bach ond sefydlog ers codi cyfyngiadau COVID-19, maent yn parhau i fod yn llawer is na'r cyfraddau cyn y pandemig. Y prif reswm dros absenoldebau yw salwch, ac felly y cânt eu codio hefyd. Ymhlith rhesymau eraill mae disgyblion yn colli'r ysgol mae gwyliau ac apwyntiadau meddygol a deintyddol.

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg ac ysgolion wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth agos i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn lefelau presenoldeb o fewn cyd-destun Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan (2012).

Amlinellir rhai o'r dulliau a'r ymyriadau hyn isod:

- Mae swyddogion lles addysg yn cefnogi ac yn cynghori ysgolion ar bresenoldeb gan gynnwys sicrhau bod swyddogaethau cyfreithiol statudol yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn briodol.
- Mae grŵp gorchwyl a gorffen a gadeirir gan y Rheolwr Grŵp (Cymorth i Deuluoedd) gyda phenaethiaid, swyddogion lles addysg a chynrychiolaeth gyfreithiol wedi'i sefydlu i adolygu strategaeth presenoldeb yr awdurdod lleol.
- Bydd archwiliadau presenoldeb ysgol yn cael eu cwblhau gan bob ysgol i ddangos arfer da a meysydd i'w datblygu.
- Bydd patrôl triwantiaeth yn cael ei gyflwyno gyda'r heddlu yn ystod tymor yr hydref.
- Mae ymgyrch farchnata yn cael ei harchwilio i sicrhau bod neges gyson yn cael ei chyfleu i rieni/gwarcheidwaid am bwysigrwydd mynychu'r ysgol.
- Anogir 'system cyfaill' ar gyfer disgyblion ym mhob ysgol i hybu hyder a lles.
- Ysgolion i ailgyflwyno system 'Callio' o lythyrau i rieni er mwyn sicrhau ymateb graddedig cyson a fydd yn amlygu a gwella lefelau presenoldeb.
- Cyhoeddir canllawiau presenoldeb ac ymgysylltu diwygiedig yn hydref 2023, a fydd yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau, a chyfrifoldebau llywodraethwyr o ran cefnogi dysgwyr i gynnal presenoldeb da. Fel rhan o hyn, gofynnir i ysgolion gyhoeddi eu polisïau presenoldeb.






## Sgôr presennol




## Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- sefydlu gweithgor a pholisi presenoldeb disgyblion;
- datblygu patrôl triwantiaeth a system 'cyfaill';
- sicrhau swyddog presenoldeb ar gyfer rhai ysgolion;
- cyflwyno rhybuddion cyn gwahardd lle bo angen;
- ymgysylltu'n effeithiol ag ysgolion ynghylch gwaharddiadau;
- sefydlu dosbarth asesu a Chyfnod Sylfaen yn Narpariaeth Amgen Y Bont;
- adolygu a gwella trefniadau drws ffrynt Cymorth Cynnar;
- sefydlu trefniadau anogaeth a chymorth ymddygiad pwrpasol mewn rhai ysgolion (er enghraifft, Canolfan Phoenix yng Ngholeg Cymunedol Y Dderwen);
- ehangu'r cynnig hyfforddiant 'Team Teach'; a
- gweithio gyda Choleg Penybont i gyflwyno'r Rhaglen Prentisiaeth Iau effeithiol.

## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- ddatblygu strategaeth cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ysgolion;
- datblygu rhaglen hyfforddi/sefydlu o ansawdd dda ar gyfer cynorthwywyr cymorth anghenion arbennig (SNSAs) i sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n dda a bod ganddynt wybodaeth glir am ddisgyblion a'u heriau cyn cyrraedd yr ysgol;
- datblygu cyfeiriad/gweledigaeth awdurdod lleol clir ar gyfer cymorth ymddygiad gyda strategaeth ategol er mwyn darparu eglurder a chysondeb ar draws ysgolion i reoli ymddygiad, a defnyddio gwaharddiadau parhaol ac am gyfnod penodol;
- eglurder o ran pa gymorth ymddygiad sydd ar gael i ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;
- cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth yn Ysgol Bryn Castell a Darpariaeth Amgen Y Bont;
- adolygu'r Polisi Symud wedi'i Reoli;
- cynnal archwiliadau presenoldeb;
- sicrhau bod cefnogaeth gyson gan y Gwasanaeth Lles Addysg (GLIA) ar gael ym mhob ysgol;
- sefydlu fforwm i lywodraethwyr ysgol ddeall y rhesymau sydd wrth wraidd gwahardd disgyblion a defnyddio'r sesiynau hyn i rannu arfer effeithiol mewn perthynas â rheoli ymddygiad disgyblion;
- egluro'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion sydd ddim yn mynychu (er enghraifft, rhybuddion cosbau penodedig);
- datblygu pecyn cynhwysfawr o ganllawiau a chyngor mewn perthynas â rhianta effeithiol ac ymgysylltu â theuluoedd wedi'i ategu gan strategaeth y cytunwyd arni;
- ymgorffori dull lles ysgol gyfan NEST; a
- sefydlu rhaglen ddysgu broffesiynol o ansawdd dda ar gyfer yr holl staff yn yr ysgol ar faterion penodol fel dad-ddwysáu.

## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, byddwn:

- defnyddio arbenigwyr o ysgolion i gefnogi a chyflwyno hyfforddiant (er enghraifft, Ysgol Bryn Castell ac Ysgol Heronsbridge); a
- mabwysiadu a datblygu strategaeth a gweledigaeth glir ar gyfer presenoldeb sy'n cael eu cyfleu'n effeithiol i deuluoedd.

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- oes gostyngiad mewn gwaharddiadau disgyblion (cyfnod penodol a pharhaol);
- yw presenoldeb disgyblion yn gwella;
- yw pob ysgol yn mabwysiadu Polisi Presenoldeb Ysgol yr awdurdod lleol yn gyson;
- os sefydlir strategaeth well i gefnogi rhieni a theuluoedd;
- os datblygir ystod o gymorthfeydd/sesiynau galw heibio gyda staff arbenigol; ac
- os ydym yn datblygu cynnig ehangach o lwybrau amgen (er enghraifft, Rhaglen Prentisiaeth Iau) ac yn sicrhau bod y rhaglenni hyn ar gael yn gyfartal trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| Amcan Lles 4 | Byddwn yn datblygu panel gwahardd parhaol i gefnogi pob ysgol.<br>Byddwn yn datblygu gweithgareddau ychwanegol i wella presenoldeb mewn ysgolioon (er enghraifft, patrôls triwanta).<br>Byddwn yn cyflogi rhagor o staff tiwtora ac yn cryfhau timau ymgysylltu ag ieuenctid i sicrhau nad oes unrhyw un yn colli cysylltiad â'i addysg a'i ddysg.<br>Byddwn yn ymestyn cyfrifon dysgu personol i sicrhau bod pob un dan 25 oed yn cael cynnig addysg, prentisiaeth neu waith. |




# Thema 3

## Cefnogaeth i blant a phobl ifanc bregus

# T3: Cefnogaeth i blant a phobl ifanc bregus

## Crynodeb

Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.


Ar gyfer ysgolion, ategir hyn gan ddeddfwriaeth fel Deddf Addysg (2002), adran 175, sy'n amlygu dyletswyddau'r awdurdod lleol ac ysgolion. Mae deddfwriaeth bellach yng Nghymru megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Deddf Cydraddoldeb (2010) a Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) yn amlygu'n glir yr hyn y mae'n rhaid i ysgolion ei wneud i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynhyrchu canllawiau statudol, 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' sy'n esbonio'n glir yr hyn y mae'n rhaid i ysgolion ei wneud ac y dylent ei wneud wrth gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu.

Er mwyn parhau i ymgorffori arferion diogelu o fewn ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi cryn dipyn o amser ac adnoddau i sicrhau bod ysgolion yn gwbl ymwybodol ac yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau diogelu. Yn benodol, trwy rôl y Tîm Ymgysylltu Addysg trwy ddarparu un pwynt cyswllt i gynorthwyo ysgolion i reoli materion diogelu. Darperir y cymorth hwn trwy hyfforddiant, cyngor a chymorth sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau diogelu.

Rhoddwyd trefn o archwilio arferion diogelu ysgolion ar waith yn 2020. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio dull archwilio a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i alluogi ysgolion i adolygu a dangos tystiolaeth o'u dull o ddiogelu. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' wrth adolygu'r archwiliadau a gwblhawyd gan ysgolion i helpu i nodi arfer dda a meysydd i'w datblygu.

Wrth symud ymlaen, bydd yr awdurdod lleol yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion ac asiantaethau eraill i gefnogi plant a theuluoedd yn effeithiol, i gydnabod yr heriau parhaus a brofir yn gysylltiedig â COVID-19 a'r argyfwng costau byw.






**Sgôr presennol**




**Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?**

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- gwneud defnydd effeithiol o arian grant (gan gynnwys gwaith clwstwr effeithiol i gefnogi plant â phrofiad o ofal mewn ysgolion);
- adnoddau staffio cryfach o fewn y Tîm Sgrinio Cymorth Cynnar a'r Tîm Ymgysylltu Addysg;
- sefydlu'r rhaglen 'Help Llaw';
- cynnal archwiliadau diogelu ysgol gyfan;
- datblygu tudalennau gwefan i gynnig cymorth ar-lein i deuluoedd;
- sicrhau adnoddau i gefnogi plant sy'n ffoaduriaid;
- darparu amrywiaeth o ymyriadau wedi'u targedu mewn ysgolion gan gynnwys Shine, Thrive, gan ELSA (cynorthwywyr cymorth llythrennedd emosiynol), a thrwy PERMA (ymgysylltu emosiynol cadarnhaol, perthnasoedd, cyflawniadau ystyrlon); a
- phrosesau trosglwyddo gwell (er enghraifft, rhwng lleoliadau Dechrau'n Deg, ysgolion a cholegau gan gynnwys ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn ddewisol).

## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- ddarparu mwy o gymorth wedi'i dargedu ar gyfer dysgwyr sydd wedi ymddieithrio;
- datblygu gwell systemau olrhain ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed (gan gynnwys plant sydd wedi cael profiad o ofal);
- datblygu cynllun ecwiti awdurdod lleol;
- archwilio a rhannu arfer orau effeithiol mewn ysgolion;
- datblygu cyfranogiad mwy effeithiol gan ddysgwyr sy'n agored i niwed;
- gwella'r cynnig i blant nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET);
- gweithio gyda'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i wella cyfathrebu rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion;
- darparu gwasanaethau mwy cydgysylltiedig (gan gynnwys addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, a'r heddlu) a sicrhau bod defnyddwyr yn deall y gwasanaethau sydd ar gael yn well;
- datblygu 'dogfen trothwy angen' i alluogi teuluoedd ac arbenigwyr i ddeall y cymorth mwyaf priodol sydd ar gael i fodloni anghenion penodol, er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn ceisio'r cymorth cywir ar yr adeg gywir; ac
- adolygu data atgyfeirio yn fwy effeithiol (drwy'r Bwrdd Cymorth Cynnar a Diogelu) i bennu a yw teuluoedd yn ceisio gwasanaethau yn brydlon.

## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, byddwn:

- datblygu cyfeiriadur cymorth; a
- sicrhau tegwch o ran lefelau cymorth, yn enwedig ar gyfer clystyrau/ysgolion mwy (er enghraifft, cymorth gwasanaeth seicoleg addysg).

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- holl bolisïau'r ysgol yn cydymffurfio â chynllun ecwiti awdurdod lleol;
- cymorth i rieni plant sy'n agored i niwed yn cael ei wella; a
- gweithwyr cymorth yn gysylltiedig â chlwstwr ac wedi'u lleoli mewn ysgol.

## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| **Amcan Lles 6** | Byddwn yn cynyddu canran yr ymyriadau Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) sy'n cael eu cau gyda chanlyniad cadarnhaol i 75% yn 2023-2024. |
| **Amcan Lles 7** | Byddwn yn cyflwyno prydau ysgol gynradd am ddim cyffredinol i bob dysgwr ysgol gynradd erbyn mis Medi 2024. |



# Thema 4

## Cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol



# T4: Cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol

## Crynodeb

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021) yn darparu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r Diwygio ADY. Mae'n bwysig cydnabod mai dull trawsnewidiol yw Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yn hytrach na symud o un system i'r llall yn unig.

Mewn ymateb i Ddeddf ADYTA, mae staff ychwanegol wedi'u cyflogi mewn Cymorth i Ddysgwyr. Mae'r staff hyn yn yr Uwch Dîm Arwain Cymorth i Ddysgwyr ADY ac wedi'u cyflogi i fodloni gofynion statudol ym meysydd y Blynyddoedd Cynnar ac Ôl-16. Yn 2022, symudodd y cyfrifoldeb am y tîm statudol drosodd i Gymorth i Ddysgwyr.



Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'r cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY), a ddaeth yn rôl statudol fel rhan o'r Ddeddf ADYTA, ac arweinwyr clystyrau ADY i gefnogi gyda'r gwaith o drawsnewid a gweithredu'r Diwygio ADY. Cynhelir diwrnodau Fforwm Cydlynwyr ADY lle mae swyddogion, Cydlynwyr ADY a chydweithwyr o'r byd Iechyd yn mynychu. Mae'r agendâu ar gyfer diwrnodau Fforwm Cydlynwyr ADY yn cael eu llunio ar y cyd ag arweinwyr clwstwr y Cydlynwyr ADY.

Mae gwaith sicrwydd ansawdd yn cael ei wneud gyda'r Cydlynwyr ADY ynghylch cynlluniau datblygu unigol (CDU) ac mae hyrwyddwyr CDU wedi'u sefydlu o fewn clystyrau. Mae hyrwyddo gwaith ysgol-i-ysgol yn bwysig yn y gwaith hwn. Mae'r staff hyn yn hollbwysig wrth raeadru gwybodaeth a deunyddiau hyfforddiant gyda staff eraill yr ysgol. Mae Cydlynwyr ADY yn cynorthwyo gyda hunanwerthuso a chynllunio, a goruchwylio map darpariaeth ar gyfer ADY o fewn yr ysgol.

Yn ystod cyfnod trawsnewid y Diwygio ADY, gwerthusodd ysgolion eu parodrwydd ar gyfer Diwygio ADY. Ar hyn o bryd rydym yn ail flwyddyn cyfnod gweithredu'r Diwygio ADY a gofynnir i ysgolion gynnal adolygiad o'u harfarniad fel rhan o adolygiad yr awdurdod lleol o gynnydd hyd yma.

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol strategol o ddarpariaeth ADY ym Mhen-y-bont ar Ogwr. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, datblygwyd cynllun gweithredu a chytunwyd arno gan yr awdurdod lleol. Sefydlwyd bwrdd i oruchwylio'r gwaith hwn y mae cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol ac ysgolion yn gwasanaethu arno. Mae is-grwpiau wedi'u sefydlu i weithio ar yr amcanion yn y cynllun ac mae'r grwpiau hyn yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd. Rydym wedi gallu ymestyn y ddarpariaeth ADY ym Mhen-y-bont ar Ogwr drwy sicrhau rhagor o gyllid. Mae hyn yn cynnwys mwy o ddarpariaeth i ddisgyblion ADY sy'n dymuno parhau â'u taith ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhan allweddol o'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar sut all yr awdurdod lleol gynnig rhagor o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion ADY.




## Sgôr presennol




## Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- datblygu model gweithio clwstwr effeithiol yn cynnwys Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY);
- sefydlu Panel ADY wythnosol;
- darparu cymorth arbenigol gan Wasanaeth Seicoleg Addysg profiadol a'r timau ADY arbenigol o fewn Cymorth i Ddysgwyr;
- darparu hyfforddiant datrys anghydfod i bob Cydlynydd ADY;
- agor canolfan adnoddau dysgu (CAD) ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol (ADC) mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg (Ysgol Cynwyd Sant);
- agor Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer dysgwyr ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASD) mewn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg (Ysgol Gynradd Tremains);
- cryfhau'r adnoddau staffio yn y Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd (CART);
- cwblhau'r pontio o Ddatganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i CDU ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 11 (dan fandad);
- hyrwyddwyr cynlluniau datblygu unigol (CDU) wedi'u hyfforddi o fewn clystyrau;
- datblygu ymateb graddedig CART:
- datblygu pecyn cymorth Blynyddoedd Cynnar;
- rhoi'r Cynllun Gwella ADY ar waith;
- sefydlu proses sicrhau ansawdd y CDU;
- datblygu ein darpariaeth arbenigol (er enghraifft, Ysgol Bryn Castell, Ysgol Heronsbridge a Darpariaeth Amgen y Bont); a
- datblygu Fforwm Cydlynwyr ADY effeithiol a gweithgorau eraill.



## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol ym Mhen-y-bont ar Ogwr (gan gynnwys rolau, cyfrifoldebau, a disgwyliadau a rennir);
- cynnal adolygiad strategol o ddarpariaeth ADY;
- datblygu strategaeth ADY a strategaeth ymddygiad ADY;
- datblygu dull cyson o gefnogi trosglwyddo Datganiadau AAA i CDU o fewn targedau statudol;
- sefydlu polisi/arfer ymgysylltu mwy effeithiol gyda rhieni;
- rhannu arfer effeithiol ymhellach ar draws ysgolion;
- sicrhau ansawdd darpariaeth dysgu ychwanegol (DDY);
- darparu hyfforddiant ar gyfer lleoliadau Blynyddoedd Cynnar;
- datblygu continwwm o gefnogaeth ar gyfer disgyblion hŷn ag ADC trwy gyfrwng y Gymraeg;
- sefydlu proses gynhwysfawr ar gyfer CDU y Blynyddoedd Cynnar;
- gwella arferion, polisïau a phrosesau pontio rhwng plentyndod a dod yn oedolyn;
- ymchwilio i drefniadau ar gyfer gweithio rhyngasiantaethol rhagorol ac archwilio modelau arfer dda o fannau eraill;
- targedu dyraniad adnoddau yn fwy effeithiol i fodloni anghenion dysgwyr; a
- lansio'r system CDU ar-lein.

## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, byddwn:

- parhau i ddarparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol;
- ceisio gwella cyllid i gefnogi disgyblion ag ADY;
- parhau i ddarparu cymorth o ansawdd dda gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r timau ADY arbenigol eraill o fewn Cymorth i Ddysgwyr;
- datblygu SNSAs o ansawdd dda gyda dealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau;
- archwilio modelau arfer gorau o bontio rhwng plentyndod a dod yn oedolyn;
- darparu cyfeiriadur cymorth ar-lein sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd; a
- sicrhau bod adnoddau a gynhyrchir gan ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cael eu rhannu'n fwy effeithiol.

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- yw Strategaeth ADY awdurdod lleol effeithiol, sydd wedi'i theilwra'n arbennig ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, wedi'i llunio ar y cyd, wedi'i chyfleu'n glir ac wedi'i deall gan bawb;
- yw anghenion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu nodi a'u gweithredu;
- oes prosesau arfarnol clir yn bresenol ym mhob ysgol;
- sefydlir protocol sicrhau ansawdd o arfer ADY mewn ysgolion;
- oes gwelliant o ran recriwtio a chadw Cydlynwyr ADY ysgolion; ac
- oes proses ddi-dor o bontio rhwng plentyndod ac oedolaeth.

## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| **Amcan Lles 1** | Byddwn yn darparu hyfforddiant i feithrin gwybodaeth am ddiwygio ADY a sut y gellir darparu cymorth effeithiol i blant ag ADY. Bydd hyn yn sicrhau bod o leiaf 60 o Gydlynwyr ADY (CADY) sy'n staff ysgol yn cael hyfforddiant pwrpasol i ddiwallu anghenion disgyblion. |

# Thema 5

## Cwricwlwm i Gymru ac asesu



# T5: Cwricwlwm i Gymru ac asesu

## Crynodeb

Cyflwynwyd Cwricwlwm i Gymru, ar gyfer ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir, mis Medi 2022. Rydym am fanteisio'n llawn ar y datblygiad hwn ym Mhen-y-bont ar Ogwr i sicrhau bod pob dysgwr yn mwynhau ei ddysgu ac yn datblygu'r sgiliau, y wybodaeth, a'r gwydnwch emosiynol sydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd. Rydym eisiau dysgwyr i fod yn unigolion moesegol sy'n chwarae rhan weithredol yn eu cymuned a chymdeithas, gan ystyried amrywiaeth ethnig a chynhwysiant fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan.

Dylent fod yn barod i ffynnu yn y byd gwaith a gallu addasu ac ymateb i newidiadau parhaus mewn technoleg. Rhaid inni fanteisio'n llawn ar yr holl adnoddau a phrofiadau sydd gan y fwrdeistref i'w cynnig i wneud y cwricwlwm yn 'real' ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'i addasu i'r ystod o gyd-destunau sy'n wynebu ein hysgolion a'n dysgwyr.


Elfen allweddol o'n hymagwedd fydd gosod dysgu yn ei gyd-destun – gosod y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth hanfodol mewn cyd-destun ystyrlon, priodol a diddorol. Ni all ysgolion wneud hyn ar eu pen eu hunain – bydd angen iddynt weithio gyda'r awdurdod lleol a phartneriaid rhanbarthol i ail-ddychmygu'r posibiliadau a gyflwynir gan y cwricwlwm a datblygu profiadau newydd a diddorol i ddysgwyr.

Rydym hefyd am weld ffocws cryf ar gefnogi dwyieithrwydd ac ehangu'r ystod o gyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â'r Gymraeg a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a chysylltiad â'n treftadaeth a'n diwylliant Cymreig. Mae pobl ifanc yn dweud mai un o'r blaenoriaethau pwysicaf iddyn nhw yw gwell cymorth i fod yn barod ar gyfer eu bywydau ar ôl addysg.

Mae Cwricwlwm i Gymru yn cydnabod hyn ac unwaith y caiff ei wireddu bydd yn cefnogi pob dysgwr, yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl, i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i reoli pob agwedd ar eu bywydau – tai, cyllid personol a chyllidebu, byw'n annibynnol, perthnasau personol a theuluol, addysg rhyw, ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydlyniant cymunedol, byw'n gynaliadwy, a dinasyddiaeth.

Mae asesu yn rhan sylfaenol o Gwricwlwm i Gymru ac yn rhan annatod o'r broses ddysgu. Credwn fod asesu yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael ei gefnogi a'i herio yn unol â hynny. Dylai gyfrannu at ddatblygu darlun cyfannol o'r dysgwr – ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu, a'r meysydd i'w datblygu, er mwyn llywio'r camau nesaf mewn dysgu ac addysgu.






## Sgôr presennol




## Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- dechrau gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob ysgol gynradd, gan ddechrau ar y gwaith gweithredu yn gynt mewn nifer o ysgolion uwchradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr;
- sicrhau adborth cadarnhaol gan Estyn ym mhob arolygiad ysgol diweddar mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru;
- datblygu rhaglen datblygiad proffesiynol effeithiol yn annog dysg broffesiynol mewn perthynas ag ymholiad ar y cyd;
- sefydlu gwaith clwstwr effeithiol (o fewn yr awdurdod lleol ac ar draws y rhanbarth) i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant;
- datblygu ein haddysgeg i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru; a
- rhannu arfer effeithiol trwy Dîm Pen-y-bont ar Ogwr a phrosesau eraill.



## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- fabwysiadu Cwricwlwm i Gymru ym mhob ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr;
- gwella trosglwyddo ar adegau allweddol yn ystod taith dysgwr;
- cynhyrchu ystod ehangach o astudiaethau achos Estyn ac awdurdodau lleol;
- datblygu cydweithio clwstwr ymhellach;
- darparu mwy o gyfleoedd i ysgolion ac awdurdodau lleol rannu arfer effeithiol;
- datblygu Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliiol ar draws y blynyddoedd cynnar a lleoliadau ysgol;
- annog ysgolion i ddatblygu a rhannu arfer arloesol;
- gweithredu Cynllun Dysgu Digidol newydd ar gyfer ysgolion;
- darparu dysgu proffesiynol o ansawdd dda i'r holl staff (o ran cyfleoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb);
- sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi ar gyfer cymwysterau newydd;
- gwella ymgysylltiad aelodau etholedig o ran cefnogi ysgolion;
- gweithredu'r Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd (Llywodraeth Cymru, 2022); a
- pharhau i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd dda ac annog dysgu proffesiynol mewn perthynas ag ymholiad ar y cyd.

## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, byddwn:

- darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd dda wedi'u comisiynu gan bartneriaid allanol;
- rhannu arfer effeithiol, gan gynnwys astudiaethau achos;
- parhau i gynnal cyfarfodydd rhwydwaith Tîm Pen-y-bont ar Ogwr;
- parhau i drefnu grwpiau rhwydweithio rhanbarthol, gan gynnwys grwpiau meysydd profiadau dysgu;
- datblygu mapiau dilyniant ar gyfer grwpiau meysydd profiadau dysgu;
- darparu canllawiau yn ymwneud â dilyniant ac asesu, wrth iddynt ddod ar gael;
- defnyddio'r Grant Cydweithredu a'r Grant Dysgu Proffesiynol i gefnogi'r datblygiad parhaus hwn; a
- pharhau i gynnal cyfarfodydd grŵp rhwydwaith, fel Grŵp Datblygu Arweinwyr Cwricwlwm, a'r Rhwydwaith Dirprwy Brifathrawon i rannu arfer dda a sesiynau datblygiad proffesiynol i gefnogi ysgolion.



## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- oes gan bob ysgol a'r awdurdod lleol ddealltwriaeth gyffredin o ddilyniant;
- nad yw Estyn yn barnu bod angen gweithgarwch dilynol neu fod angen 'gwelliant sylweddol' neu 'fesurau arbennig' ar Ben-y-bont ar Ogwr; ac
- yw pob ysgol yn gweithredu elfennau gorfodol Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus.

## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| **Amcan Lles 4** | Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth pwrpasol i ysgolion i'w helpu i gyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yn eu cynlluniau gwella ysgolion. Byddwn yn sicrhau erbyn diwedd tymor yr hydref bob blwyddyn (fel rhan o'r cylch blynyddol o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant), y bydd yr holl gynlluniau datblygu ysgol wedi'u dadansoddi, ac yn dilyn hyn, bydd cyfleoedd datblygu proffesiynol priodol yn cael eu cynnig i bob ysgol. Ni fydd hyn yn sicrhau y bydd Estyn yn pennu 'nad oes angen unrhyw waith dilynol' yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. |



# Thema 6

## Addysgu a dysgu o ansawdd uchel

# T6: Addysgu a dysgu o ansawdd uchel

## Crynodeb

Nod Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2017) yw codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a darparu system addysg sy'n destun balchder a hyder cenedlaethol. Mae darparu addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn rhan allweddol o'r strategaeth genedlaethol hon ac wedi'i hategu gan y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yng Nghymru. Mae'r adnoddau hyn wrth galon cefnogi'r gwaith o ddiwygio addysg, gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus ac adolygu arholiadau cyhoeddus a chymwysterau.

Dylai cynllun cwricwlwm ar gyfer dysgwyr o bob oed a gallu gael ei danategu gan yr egwyddorion addysgegol. Byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion i fireinio eu cwricwlwm yn seiliedig ar y deuddeg egwyddor addysgegol a fydd yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

Bydd ysgolion yn cynnal hunanwerthusiad mewn partneriaeth â phartneriaid cyflawni i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu mewn addysgu a dysgu, gan rannu arfer yn ehangach fel y bo'n briodol.

Mae Tîm Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfrwng gwerthfawr ar gyfer rhannu a datblygu arfer effeithiol, gan wneud defnydd o'r rhwydweithiau a'r grwpiau amrywiol. Mae sesiynau datblygiad proffesiynol yn cefnogi gwahanol feysydd datblygiad yn seiliedig ar anghenion a nodwyd o ymarferion hunanarfarnu.

Bydd y cymorth hwn ar gyfer datblygu addysgu a dysgu o ansawdd dda yn sicrhau bod gan ddysgwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr awydd cryf i ddysgu gydag annibyniaeth gynyddol, sgiliau metawybyddol effeithiol, y gallu i ddatrys problemau a sgiliau cyfathrebu hynod effeithiol.

Bydd addysgu a dysgu o ansawdd dda yn ymatebol, yn ddeinamig ac wedi'u gwreiddio mewn perthnasoedd cryf, lle caiff cyfleoedd dysgu diddorol a phriodol o ran datblygiad eu llywio gan arsylwi rheolaidd ac asesu dysgu'n barhaus a chyfnod datblygiad y dysgwr. Bydd addysgu effeithiol yn herio dysgwyr a bydd ganddynt ddisgwyliadau uchel, gan ymgysylltu'n weithredol â rhieni, gofalwyr, a'r gymuned ehangach fel partneriaid mewn dysgu.






**Sgôr presennol**




**Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?**

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- alinio ein cynnig datblygiad addysgegol â Chwricwlwm i Gymru;
- datblygu partneriaeth lwyddiannus ar draws awdurdodau lleol wrth gyflwyno darpariaeth Ôl-16 drwy E-sgol;
- rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith ym mhob ysgol gynradd a'i roi ar waith yn gynnar mewn llawer o ysgolion uwchradd;
- datblygu model gweithio partneriaeth effeithiol sy'n cynnwys pob ysgol a'r awdurdod lleol;
- modelau datblygedig o ddysgu cyfunol;
- darparu rhaglen datblygiad proffesiynol cynhwysfawr;
- datblygu cydweithio clwstwr effeithiol; a
- phenodi Swyddog Dysgu Digidol awdurdod lleol.

## Amcanion gwella

Byddwn yn:

- parhau i rannu arfer effeithiol;
- parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd dda;
- cefnogi mwy o gydweithio yn cynnwys Arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh);
- cyflwyno rhaglen ddatblygu ar gyfer staff cymorth dysgu ar bob lefel;
- darparu cymorth o ansawdd dda ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio datblygiad ysgol;
- sicrhau cyfuniad effeithiol o egwyddorion addysgegol dysgu ac addysgu ym mhob ysgol;
- darparu cyfleoedd i ddatblygu arweinwyr canol;
- archwilio cyfleoedd i arweinwyr canol weithio mewn ysgolion eraill (er enghraifft, 'cyfnewid' tymor byr); a
- nodi pa agweddau ar addysgu a dysgu i ganolbwyntio arnynt (er enghraifft, gwahaniaethu ac annibyniaeth).

## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, byddwn:

- parhau â rhwydweithiau cefnogi ysgolion i ledaenu a rhannu gwybodaeth ac arfer dda ar draws yr awdurdod lleol;
- parhau i gysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau eglurder a chysondeb polisïau a negeseuon;
- rhannu arfer effeithiol, gan gynnwys astudiaethau achos;
- parhau i gynnal cyfarfodydd rhwydwaith Tîm Pen-y-bont ar Ogwr; a
- defnyddio'r Grant Cydweithredu a Grant Dysgu Proffesiynol yn effeithiol i gefnogi'r datblygiad parhaus hwn.

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- yw pob ysgol yn datblygu ac yn rhannu arfer effeithiol a brofwyd gan bartneriaid cyflwyno; a
- chaiff addysgu a dysgu effeithiol eu nodi gan Estyn ym mhob un o ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr.

## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| **Amcan Lles 4** | Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth pwrpasol i ysgolion i'w helpu i gyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yn eu cynlluniau gwella ysgolion. Byddwn yn sicrhau erbyn diwedd tymor yr hydref bob blwyddyn (fel rhan o'r cylch blynyddol o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant), y bydd yr holl gynlluniau datblygu ysgol wedi'u dadansoddi, ac yn dilyn hyn, y bydd cyfleoedd datblygiad proffesiynol priodol yn cael eu cynnig i bob ysgol. Ni fydd hyn yn sicrhau y bydd Estyn yn pennu 'nad oes angen unrhyw waith dilynol' yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. |



# Thema 7

## Arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol



# T7: Arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol

## Crynodeb

Mae'r Safonau Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2017) yn gosod disgwyliadau clir ynghylch arfer effeithiol, gan alluogi arweinwyr i allu myfyrio ar eu rôl, yn unigol ac ar y cyd, i nodi llwyddiannau a meysydd i'w datblygu. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau mwy diweddar ar Werthuso, Gwella ac Atebolrwydd (Llywodraeth Cymru, 2022).

Bydd y rhaglenni dysgu proffesiynol arweinyddiaeth yn cefnogi datblygiad parhaus arweinwyr ar bob lefel ar draws ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae dull Tîm Pen-y-bont ar Ogwr yn sefydlu ethos o gymorth a chydweithio ar gyfer arweinwyr, trwy ystod o rwydweithiau, cyfleoedd datblygiad proffesiynol a rhannu arfer effeithiol.

Yn unol â'n hymrwymiad i amddiffyn llesiant disgyblion a staff, bod cymorth yn cael ei gynnig i benaethiaid hen a newydd, a hynny'n ffurfiol ac yn anffurfiol, drwy'r fentora a'r system bydi, a diwrnod cynefino blynyddol ar gyfer uwch-arweinwyr newydd mewn ysgolion.

Byddwn yn parhau i weithio gydag arweinwyr ysgol i osod targedau priodol, monitro cynnydd blaenoriaethau'r ysgol trwy ystod o weithgareddau hunanarfarnu a brocera mwy o gymorth os oes angen. Mae'r ymyriad cynnar hwn yn rhan annatod o'r broses hunanarfarnu. Bydd cynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol yr ysgol yn cael ei adolygu o fewn yr awdurdod lleol gyda chymorth priodol yn cael ei ddarparu.

Mae'r Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd yn nodi bod gan ysgolion y rôl ganolog o ran ysgogi gwelliannau ac mai cyrff llywodraethu yw'r cyrff atebol ar gyfer eu hysgolion. Yn y rôl hon, maent yn cymryd cyfrifoldeb am arweinyddiaeth strategol yr ysgol, am ei llywodraethu effeithiol ac am ysgogi gwelliannau yn eu hysgolion er budd dysgwyr.

Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cael eu llywodraethu'n effeithiol ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen dysgu proffesiynol ar gyfer llywodraethwyr i sicrhau y gallant gyflawni eu rôl atebolrwydd uwch yn effeithiol. Bydd hyrwyddo Pecyn Cymorth Hunanwerthuso Cyrff Llywodraethu yn parhau i gefnogi datblygiad cyrff llywodraethu yn eu rolau. Bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod cyrff llywodraethu yn cael eu cefnogi i recriwtio ac ethol llywodraethwyr.




**Sgôr presennol**




**Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?**

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- cysylltu â phartneriaid i ddatblygu model hunanarfarnu ar gyfer cyrff llywodraethu rhanbarthol;
- sefydlu grwpiau rhwydwaith i gynorthwyo gydag arweinyddiaeth wasgaredig a meithrin gallu;
- datblygu ffordd effeithiol o gydweithio dan fodel Tîm Pen-y-bont ar Ogwr;
- datblygu fforymau uwch arweinwyr;
- sefydlu trefniadau gweithio clwstwr effeithiol;
- ymgysylltu â phartneriaid i ddatblygu llwybrau arweinyddiaeth cenedlaethol;
- cynnwys arweinwyr ysgol ym mhroses cynllunio strategol yr awdurdod lleol i ganiatáu mwy o aliniad â'r Cynllun Gwella Ysgol (CGY);
- mabwysiadu'r Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd;
- llwyddo i gaffael gwasanaethau cyfreithiol effeithiol ar ran ysgolion;
- cyflwyno crynodeb ysgol tymhorol ar gyfer cyrff llywodraethu;
- datblygu system gyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion a'r awdurdod lleol drwy 'Monday Mailshot';
- cyflwyno 'cyfaill Pen-y-bont ar Ogwr' i gefnogi penaethiaid newydd; a
- chanlyniadau cadarnhaol a adroddwyd mewn llawer o arolygiadau ysgolion Estyn.

## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- darparu cyfleoedd hyfforddi o ansawdd dda i lywodraethwyr ysgol mewn perthynas â'r Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd;
- datblygu mecanweithiau cymorth mwy effeithiol ar gyfer penaethiaid newydd/dros dro/dirprwy benaethiaid;
- cefnogi llesiant penaethiaid ac uwch arweinwyr eraill mewn ysgolion;
- cynnal arfarniad o set sgiliau llywodraethwyr ysgol a pharhau i hyrwyddo pecyn cymorth hunanarfarnu llywodraethwyr ysgol;
- cefnogi gwaith Cymdeithas Llywodraethwyr Pen-y-bont ar Ogwr i sicrhau bod gan bob llywodraethwr ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr fynediad at yr adnodd gwerthfawr hwn;
- datblygu sianelau cyfathrebu mwy effeithiol er mwyn rhannu gwybodaeth gyda llywodraethwyr ysgol;
- cynnal ymgyrch farchnata i recriwtio llywodraethwyr ysgol;
- datblygu trefniadau cynllunio olyniaeth effeithiol ar draws ysgolion ac yn y gyfarwyddiaeth;
- sicrhau bod cyngor gan Lywodraeth Cymru ac Estyn wedi'i gorffori mewn ymarfer pryd bynnag mae hynny'n bosibl;
- sicrhau bod yr holl ddysgu proffesiynol yn unol â'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol;
- datblygu strategaethau recriwtio a dargadw creadigol (yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion cyfrwng Cymraeg);
- gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu capasiti ar gyfer dulliau arwain creadigol i gynorthwyo gydag arloesi'r cwricwlwm newydd;
- datblygu mecanweithiau cymorth mwy effeithiol ar gyfer uwch arweinwyr mewn ysgolion;
- annog ysgolion i ddatblygu a rhannu eu rhaglenni eu hunain a cheisio cefnogaeth gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, lle bynnag sy'n briodol:
- gweithio'n agos â'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol drwy gefnogi dysgwyr i wneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael, cymryd rhan mewn rolau cysylltiedig, a gwneud cais am gyllid arloesi;
- darparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu arweinwyr ar lefelau gwahanol mewn ysgolion drwy annog staff i wneud defnydd o'r cynnig dysgu proffesiynol sy'n ymwneud ag arwain;
- datblygu prosesau i rannu arfer dda rhwng ysgolion, llywodraethwyr, awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth; a
- darparu cymorth o ansawdd dda ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio datblygiad ysgol.

## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, byddwn:

- sicrhau mwy o ddysgu proffesiynol i lywodraethwyr ysgol (er enghraifft, mewn perthynas â'r Fframwaith Arfarnu, Gwella ac Atebolrwydd);
- parhau i weithio gyda'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol;
- parhau i ddefnyddio a datblygu'r pecyn cymorth hunanarfarnu rhanbarthol ar gyfer llywodraethwyr ysgol; a
- datblygu model llwybrau arweinyddiaeth.

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- yw pob llywodraethwr ysgol wedi cwblhau modiwlau hyfforddiant statudol;
- oes gostyngiad sylweddol yn nifer y lleoedd gwag yng nghyrff llywodraethu ysgolion;
- oes gan ysgolion brosesau hunanarfarnu cryf sy'n effeithio'n gadarnhaol ar addysgu a dysgu o ansawdd dda;
- oes gan uwch arweinwyr ysgol ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu hysgol;
- ydym wedi sefydlogi swyddi uwch arweinyddiaeth mewn ysgolion; ac
- os ydym yn gweld gwelliant yn nifer yr ysgolion sy'n cael eu harfarnu gan Estyn fel rhai sydd â threfniadau arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol ar waith.

## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| **Amcan Lles 4** | Byddwn yn helpu ysgolion i gyflawni eu cynlluniau gwella ysgol drwy ddadansoddi amcanion yn eu cynlluniau a chynnig hyfforddiant i fynd i'r afael â nhw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod Estyn yn pennu 'nad oes angen gwaith dilynol' ym mhob ysgol. |



# Thema 8

## Gweithdrefnau diogelu cadarn ar draws holl feysydd gwasanaeth y gyfarwyddiaeth



# T8: Gweithdrefnau diogelu cadarn ar draws holl feysydd gwasanaeth y gyfarwyddiaeth

## Crynodeb

Yn 2018, ailstrwythurodd yr awdurdod lleol ei wasanaethau Diogelu mewn Addysg, Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE), Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) a chymorth i grwpiau eraill sy'n agored i niwed yn un tîm. Enw'r tîm hwn bellach yw'r Tîm Ymgysylltu Addysg (TYA) ac mae'n bwynt cyswllt sengl ar gyfer ysgolion mewn perthynas â chymorth i'r dysgwyr uchod.

Ochr yn ochr â'r TYA, mae'r timau ADY o fewn Cymorth i Ddysgwyr hefyd yn darparu cymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Mae'r timau Cymorth i Ddysgwyr yn cynnwys y Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd (CART), Gwasanaeth Seicoleg Addysg (GSA), Tîm Synhwyraidd, Tîm Gwybyddiaeth a Dysgu, Tîm Meddygol a Namau Echddygol Cymhleth (CMMI) a darpariaeth yn The Bridge, sef yr uned cyfeirio disgyblion (UCD).



Mae gwir effaith COVID-19 bellach yn dechrau cael ei gweld ledled Cymru gan gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnydd mewn cyfraddau atgyfeirio ar gyfer cymorth gofal cymdeithasol, cynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu hychwanegu at y gofrestr amddiffyn plant, cynnydd yn nifer y plant sydd â phrofiad o ofal, cynnydd yn nifer y ceisiadau am gymorth ategol, cynnydd yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol, cynnydd yn nifer y plant sy'n gymwys am brydau bwyd am ddim, cynnydd yn nifer y ceisiadau am ddarpariaeth addysg arbenigol, a mwy o blant yn ceisio Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY).

Wrth symud ymlaen, byddwn yn cefnogi anghenion dysgu ychwanegol i ddiwygio systemau, ac arferion sy'n ymwneud ag arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac addysg gynhwysol, gan gyflawni newidiadau cadarnhaol i ddysgwyr ag ADY a monitro effeithiolrwydd systemau. Bydd dysgwyr dan anfantais yn elwa ar gymorth wedi'i dargedu drwy'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD), a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i adolygu sut y caiff ei ddefnyddio a chefnogi ysgolion ymhellach i wneud defnydd effeithiol o'r grant.

Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd hyfforddiant diogelu i lywodraethwyr drwy eu gwaith gydag ysgolion. Bydd hyfforddiant yn dal i gael ei gynnig i lywodraethwyr mewn ffordd hyblyg (er enghraifft, fel sesiynau wyneb yn wyneb neu ar-lein ar ôl gwaith).




## Sgôr presennol




## Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- cynnal archwiliadau diogelu ym mhob ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr;
- sefydlu Bwrdd Diogelu'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc;
- ailgyflwyno'r Fforwm Personau Diogelu Dynodedig;
- creu'r Tîm Ymgysylltu ag Addysg ac ehangu'r cymorth hwn yn ddiweddar i gynnwys y blynyddoedd cynnar a gofal plant;
- darparu hyfforddiant mwy effeithiol i lywodraethwyr ysgol mewn perthynas â diogelu mewn ysgolion;
- rydym wedi darparu hyfforddiant diogelu i ysgolion a rhanddeiliaid eraill;
- sefydlu system gyfathrebu fwy effeithiol o ran diogelu aelodau etholedig ac ysgolion;
- datblygu dull integredig sy'n cynnwys gwaith aml-asiantaeth ar draws y gyfarwyddiaeth;
- datblygu proses well ar gyfer ystyried pryderon proffesiynol; a
- sefydlu system llwyddiannus i fonitro a chofnodi gwybodaeth yn ymwneud â diogelu.

## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- sicrhau bod argymhellion perthnasol o adolygiadau ymarfer plant yn cael eu gweithredu;
- sicrhau bod meysydd dysgu sylweddol o adolygiadau ymarfer plant, Estyn a rheoleiddwyr eraill yn cael eu cynnwys yn yr archwiliadau diogelu blynyddol a wneir gan ysgolion i sicrhau bod y dysgu allweddol hwn wedi'i ymgorffori ar draws ein holl ysgolion;
- rhoi camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cynllun gweithredu cam-fanteisio ar blant ar waith;
- ymgorffori elfennau perthnasol y model 'Arwyddion Diogelwch';
- gwella cysylltiadau rhwng ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg;
- gweithredu camau gweithredu ac addewidion perthnasol o fewn y Strategaeth Rhianta Corfforaethol;
- cynnig cyfleoedd hyfforddiant perthnasol i holl lywodraethwyr/staff yr ysgol;
- sefydlu prosesau hunanarfarnu ac archwilio cadarn ar gyfer pob ysgol a'r awdurdod lleol;
- datblygu polisi diogelu ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant;
- mabwysiadu dull cyson o reoli cyfryngau cymdeithasol (ar gyfer staff a disgyblion);
- datblygu arweiniad amser sgrin i ddisgyblion;
- datblygu gwell dealltwriaeth o drothwyon gweithredu;
- sicrhau bod darpariaeth addysgol ar gyfer diogelwch ar-lein/seiber yn cael ei chryfhau ar draws holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr; a
- darparu cymorth diogelu haenog (er enghraifft, sylfaenol, canolradd ac uwch) i ysgolion.

## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, byddwn:

- sicrhau amser ychwanegol i swyddogion;
- sicrhau rhaglen hyfforddi y cytunwyd arni;
- gofyn am waith partneriaeth effeithiol;
- trefnu wythnosau diogelu awdurdodau lleol;
- datblygu system gofnodi briodol; ac
- elwa ar ddysgu proffesiynol ar gyfer delio â chyhuddiadau diogelu.

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- yw holl staff a llywodraethwyr yr ysgol yn cael yr hyfforddiant priodol;
- yw pob ysgol yn defnyddio system gofnodi ac adrodd effeithiol sy'n cyd-fynd yn agos â disgwyliadau awdurdodau lleol;
- yw arfer effeithiol yn ymwneud â diogelwch ar-lein yn cael ei rhannu ar draws pob ysgol;
- yw pob ysgol yn cynnal archwiliadau diogelu blynyddol wedi'u diweddaru;
- yw pob ysgol yn hunanwerthuso fel 'gwyrdd' yn eu harchwiliadau diogelu;
- rydym yn gweld gostyngiad yn nifer y pryderon proffesiynol; ac
- oes gennym Brotocol Cyfryngau Cymdeithasol awdurdod lleol ar waith.

## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| Amcan Lles 4 | Byddwn yn parhau i adolygu archwiliadau diogelu ysgolion i nodi meysydd ar gyfer gwelliant a chymorth pellach. Byddwn yn sicrhau bod holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu graddio'n 'wyrdd' yn dilyn eu harchwiliad diogelu unigol. |



# Thema 9

## Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Uchelgeisiol



# T9: Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Uchelgeisiol

## Crynodeb

Ym mis Ionawr 2022, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ail-frandio Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif fel Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (SCfLP) i wneud datganiad clir am yr ymrwymiad i'r amgylchedd, cydlyniant cymunedol, a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae amcanion buddsoddi Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn cyd-fynd â SCfLP Llywodraeth Cymru. Mae trawsnewid addysg yn ganlyniad hanfodol i'r rhaglen, yn ogystal â gwella cyflwr adeiladau ein hysgolion. Mae'r rhaglen hefyd yn anelu at ddarparu seilwaith addysgol effeithlon ac effeithiol a fydd yn bodloni'r galw am leoedd yn awr ac yn y dyfodol ac yn ceisio gwneud y defnydd gorau o'n hasedau fel y gwneir y defnydd mwyaf posibl o'r gofod a'r cyfleusterau sydd ar gael i'n rhanddeiliaid.

Yn ystod y cyfnod tair blynedd rhwng 2023-2026, mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cwblhau ystod o gynlluniau (cyfeiriwch at y dangosyddion llwyddiant) a fydd yn cyflawni amcanion ein rhaglen a strategaethau allweddol eraill (er enghraifft, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol).



Bydd 'Pen-y-bont ar Ogwr 2030 – Strategaeth Carbon Net Sero' yr awdurdod lleol ac ymrwymiadau lleihau carbon Llywodraeth Cymru hefyd yn cael sylw drwy'r rhaglen, gan y bydd yr holl ddarpariaethau newydd yn cael eu cynllunio i sicrhau bod targedau carbon net sero 'ar waith' a thargedau carbon ymgorfforedig yn cael eu cyflawni. Yn ogystal, bydd dyluniadau ein hamgylcheddau dysgu yn cofleidio cynaliadwyedd a bioamrywiaeth er mwyn gwella'r amgylchedd cyfagos a chefnogi teithio llesol.

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru SCfLP naw mlynedd. Bydd y rhaglen newydd yn cychwyn yn 2024 ac rydym yn y broses o sefydlu blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn gweithio'n agos â'r Adran Landlordiaid Corfforaethol a'r Tîm Ynni i sicrhau bod asedau adeiladau ysgolion y cyngor yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithion a'u bod yn gweithio'n effeithlon.

Drwy arolygon cyflwr ac asedau, contractau gwasanaethu lleoliadau uwch ac ymgysylltu ag arweinwyr ysgol, mae'r Adran Landlordiaid Corfforaethol yn parhau i adnabod a chyflawni prosiectau arbed ynni fel rhan o'i phrosiectau cynnal a chadw ac adnewyddu adeiladau ysgolion. Bydd yr Adran Landlordiaid Corfforaethol yn parhau i ddefnyddio ei Chyllid Grant Cynaliadwyedd gan Lywodraeth Cymru drwy archwilio cynlluniau fel paneli solar, tyrbinau gwynt a phympiau gwres ffynhonnell aer.




Sgôr presennol




Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- adeiladu pum ysgol gynradd newydd (Band A Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif);
- ymgymryd ag ailfodelu sylweddol o ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion ag ADY;
- cwblhau'r holl brosesau statudol ar gyfer cynlluniau Band B, ac wedi dechrau ar y gwaith dylunio;
- gwell trefniadau danfon mewn meysydd parcio ysgolion; ac
- adnoddau staffio cryfach o fewn y Tîm Moderneiddio Ysgolion.

## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- ailfodelu'r ddarpariaeth bresenol (gan gynnwys cefnogi'r cynnig UPFSM);
- parhau â'n Rhaglen Moderneiddio Ysgolion uchelgeisiol;
- ateb y galw cynyddol am ddarpariaeth ADY arbenigol;
- cefnogi uchelgeisiau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol (2022-2032); a
- darparu egin ysgol cyfrwng Cymraeg ym Mhorthcawl.



## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, byddwn:

- buddsoddi cyllid cyfalaf a refeniw sylweddol (trwy gynlluniau Model Buddsoddi Cydfuddiannol) yn ein Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- agor dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd a dwy ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd;
- agor Ysgol Heronsbridge newydd gyda 300 o leoedd;
- darparu egin ysgol cyfrwng Cymraeg;
- cyflawni estyniad ar ddwy ysgol gynradd;
- darparu bloc addysgu chwe ystafell ddosbarth mewn ysgol uwchradd;
- lleihau nifer y plant y gwrthodir lle iddynt yn eu dewis ysgol; a
- chyflawni ein hymrwymiadau sero net.




## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| **Amcan Lles 3** | Byddwn yn darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Ogwr ac yn Betws. Bydd hyn yn darparu 32 o leoedd gofal plant cyfwerth ag amser llawn i deuluoedd sy'n dymuno sicrhau gofal plant cyfrwng Cymraeg i'w plant.<br><br>Byddwn yn darparu dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a dwy ysgol cyfrwng Saesneg ynghyd ag Ysgol Heronsbridge â 300 o leoedd i ddysgwyr ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog trwy Fand B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. |
| **Amcan Lles 5** | Byddwn yn cyflwyno'r pum cynllun ysgol newydd i fodloni gofynion carbon net sero a chefnogi'r agenda datgarboneiddio. |



# Thema 10

## Gwasanaethau cymorth i deuluoedd priodol yn cael eu darparu gan y bobl gywir, ar yr amser cywir, i'r rhai sydd â'r angen mwyaf

# T10: Gwasanaethau cymorth i deuluoedd priodol yn cael eu darparu gan y bobl gywir, ar yr amser cywir, i'r rhai sydd â'r angen mwyaf

## Crynodeb

Mae gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi'u datblygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r pwyslais yn y Ddeddf ar ddatblygu gwasanaethau ataliol, gan fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau cyn iddynt waethygu a chyn bod angen ymyrraeth statudol arnynt.

Mae tri hwb ardal ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd wedi'u cydleoli â Gofal Cymdeithasol Plant sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio agosach a rhannu gwybodaeth. Mae hybiau Cymorth Cynnar yn dimau aml-broffesiynol sy'n cynnwys uwch weithwyr cymorth cynnar, gweithwyr cymorth i deuluoedd, gweithwyr cymorth i deuluoedd Dechrau'n Deg, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, gweithwyr llesiant, gweithwyr arweiniol, swyddogion lles addysg, gweithwyr presenoldeb a llesiant, cwnselwyr mewn ysgolion, cynghorwyr cymunedol a therapyddion chwarae.

Yn ystod 2023-2026, bydd gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd yn parhau i ehangu i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd, gan adeiladu ar bartneriaethau presennol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydgynhyrchu'n effeithiol.




**Sgôr presennol**




**Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?**

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- rhoi model llwyddiannus Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) ar waith;
- defnyddio ymyriadau ar sail tystiolaeth (EBIs) yn effeithiol;
- ehangu'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) i gynnwys rolau ymarferwyr camddefnyddio sylweddau newydd i ehangu'r cynnig i deuluoedd;
- dyfarnu Acolâd Gofal Cymdeithasol am arfer arloesol ac ysbrydoledig ar gyfer Gwasanaeth Meddwl am y Baban; a
- datblygu cynnig Cymorth i Deuluoedd llwyddiannus.

## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- gwella presenoldeb disgyblion yn ein hysgolion (cyswllt â Thema 2);
- cynyddu canran yr ymyriadau TAF a gaewyd gyda chanlyniad cadarnhaol;
- lleihau nifer y plant sydd â phrofiad o ofal;
- lleihau nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant;
- lleihau nifer yr achosion gofal a chymorth; a
- datblygu a gweithredu'r Polisi Plant sy'n Colli Addysg.

## Adnoddau

To deliver these ambitions, we will:

- dyrannu adnoddau'n briodol i ddiwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg.

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- gwelliant yng nghyfraddau presenoldeb disgyblion;
- cynnydd yng nghanran ymyriadau Tîm o Amgylch y Teulu sy'n cau gyda chanlyniad cadarnhaol;
- gostyngiad yn nifer y plant sydd wedi cael profiad o ofal; a
- gostyngiad yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.



## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| **Amcan Lles 1** | Byddwn yn parhau i ddatblygu gwasanaethau cymorth rhagorol i deuluoedd drwy gynyddu nifer yr ymyriadau tîm o amgylch y teulu (TAF) sy'n dod i ben gyda chanlyniad cadarnhaol. |
| **Amcan Lles 7** | Byddwn yn cyflwyno prydau ysgol gynradd am ddim cyffredinol i bob dysgwr ysgol gynradd erbyn mis Medi 2024. |



# Thema 11

## Cynnig gofal plant a blynyddoedd cynnar effeithiol



# T11: Cynnig gofal plant a blynyddoedd cynnar effeithiol

## Crynodeb

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ehangu rhaglen Dechrau'n Deg fel bod pob plentyn dwy oed, ymhen amser, yn elwa ar 12.5 awr o ofal plant bob wythnos yn ystod y tymor ysgol. Mae gan hyn oblygiadau pellgyrhaeddol ar ein dyletswydd, fel awdurdod lleol, i gymryd camau i sicrhau bod digon o leoedd gofal plant i ateb y galw lleol.

Mae gallu cael mynediad at y ddarpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar cywir yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at alluogi rhieni i weithio a phlant i gyflawni canlyniadau da yn y blynyddoedd cynnar. Mewn cydweithrediad â rhieni, ysgolion, a'r sector gofal plant, byddwn yn cymryd ystod o gamau gweithredu gyda'r nod o ddatblygu opsiynau gofal plant cynaliadwy ychwanegol a lleihau'r rhwystrau y gall teuluoedd eu hwynebu wrth gael mynediad i addysg gynnar a gofal plant. Bydd ein Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cael ei drawsnewid fel bod rhieni'n wybodus am eu hopsiynau ac yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau allweddol ynghylch dewis lleoliad ar gyfer eu plentyn.

Mae ansawdd gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yn hollbwysig i alluogi plant i gyflawni canlyniadau da yn y blynyddoedd cynnar ac am flynyddoedd i ddod. Bydd ein strategaeth i alluogi aelodau o'r gweithlu, ar bob lefel i gael mynediad at gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus priodol, yn helpu i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol cryf, medrus a gwybodus yn cefnogi dysgu a datblygiad cynnar plant yn effeithiol.

Rydym am i bob plentyn, beth bynnag fo'u cryfderau a'u hanghenion unigol, brofi dechrau cadarnhaol i'w taith addysgol yn ein lleoliadau blynyddoedd cynnar, gan elwa ar ofal a phrofiadau dysgu o ansawdd dda, mewn amgylcheddau dysgu ysbrydoledig, wedi'u cefnogi gan oedolion medrus sydd â diddordeb ynddynt.

Mae rhai plant dan anfantais, a gall hyn ei gwneud yn anodd iddynt gyflawni'r un canlyniadau â phlant eraill heb yr anfanteision hyn. Serch hynny, drwy ddatblygu systemau cryf ac effeithiol, bydd mwy o blant sydd angen cymorth ychwanegol yn cael eu hadnabod yn gynnar er mwyn sicrhau gallant elwa ar ystod o ymyriadau wedi'u targedu, gan ddarparu cymorth cynnar effeithiol a phontio i'r ysgol wedi'i gynllunio'n well.






Sgôr presennol




Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- cynnig cymorth dynamig i leoliadau'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant drwy gydol y pandemig, ac ers hynny, yn ogystal â rhannu negeseuon yn ymwneud ag iechyd, cynnal y cynnig hyfforddiant, a chefnogi'r sector i barhau'n ddichonadwy a chynaliadwy;
- defnyddio cyllid ac adnoddau i gefnogi dros 640 o leoliadau mewn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, rhwng 2020 a 2022, i roi cyfle i blant sydd mewn risg o fod dan anfantais i elwa ar fanteision cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol sydd ynghlwm â mynediad at addysg a gofal cynnar;
- adeiladu dau leoliad gofal plant newydd i'w defnyddio gan ddarparwyr cyfrwng Cymraeg;
- trosglwyddo'r Cynnig Gofal Plant yn llwyddiannus i'w lwyfan digidol newydd, gan sicrhau prosesau mwy di-drafferth i rieni a darparwyr;
- sicrhau adnodd gyda'r Tîm Ymgysylltu Addysg i sicrhau bod prosesau diogelu effeithiol yn cael eu mewnosod ar draws holl leoliadau Dechrau'n Deg a Blynyddoedd Cynnar nas cynhelir a ariennir;
- sicrhau arolygiadau cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru o hybiau Dechrau'n Deg CBS Pen-y-bont ar Ogwr; a
- datblygu cynllun cydlynol, strategol i gefnogi ehangiad Dechrau'n Deg yr awdurdod lleol.

## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- ddatblygu dull gweithredu system gyfan cytunedig ar gyfer pwysigrwydd iaith a chyfathrebu cynnar, a pherthnasoedd ac ymlyniad i ddatblygiad plant, ac i gydnabod hynny;
- sicrhau bod y ddarpariaeth ar draws holl leoliadau Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg nas cynhelir a ariennir Pen-y-bont ar Ogwr yn hynod effeithiol o ran rhoi'r dechrau gorau posibl i blant ar eu taith addysgol;
- cryfhau systemau a phrosesau fel bod plant sydd angen cymorth ychwanegol yn cael eu hadnabod yn gynnar, gan ganiatáu ymyriadau targedig, a chan ddarparu cymorth effeithiol yn gynnar;
- sicrhau bod rhieni yn cael ymatebion da a chydlynol gan wahanol asiantaethau, sy'n eu helpu i ennill dealltwriaeth dda o'r cyfleoedd, y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i blant y blynyddoedd cynnar, a sut mae eu ceisio;
- gweithredu model cyflawni effeithiol ar gyfer pob un o'r lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg;
- gwella trefniadau casglu data ar draws gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i ddall yn well yr effeithiau a'r canlyniadau; a
- sicrhau bod y cynnig hyfforddiant a datblygiad i weithlu y blynyddoedd cynnar yn gydlynol ac yn cyd-fynd yn dda â'r gwahanol wasanaethau ac asiantaethau ynghlwm.



## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, bydd angen inni:

- sicrhau ymrwymiad gan bartneriaid i weithio tuag at weledigaeth gyffredin, uchelgeisiol o sut beth yw ansawdd dda i blant y blynyddoedd cynnar a'u teuluoedd;
- sicrhau cydweithio effeithiol rhwng llunwyr polisi Llywodraeth Cymru, gwasanaethau gyrfaoedd a darparwyr hyfforddiant i hyrwyddo gofal plant fel dewis gyrfa atyniadol i ymgeiswyr newydd;
- defnyddio'r gyllideb ychwanegol sydd ar gael drwy ehangu rhaglen Dechrau'n Deg i gefnogi'r gwaith o greu swyddi ychwanegol er mwyn cynyddu capasiti'r Tîm Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar;
- buddsoddi yn natblygiad proffesiynol ein Tîm Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar ac arweinwyr a darpar arweinwyr mewn lleoliadau i ddatblygu arbenigedd a chapasiti mewnol ac i sicrhau cynllunio olyniaeth effeithiol; a
- gwneud defnydd effeithiol o'r system gwybodaeth rheoli newydd.

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- yw'r proffesiwn blynnyddoedd cynnar ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cael ei barchu, ei werthfawrogi, ac yn atyniadol i arbenigwyr ar bob cam o'u gyrfa, gan helpu i wella cyfraddau recriwtio a dargadw'r sector;
- Gall rhieni geisio lleoedd gofal plant cynhwysol, o ansawdd sy'n eu galluogi i weithio neu astudio a bod yn hyderus bod eu plant yn derbyn gofal o ansawdd a chyfleoedd dysgu cynnar;
- Pob lleoliad nas cynhelir a ariennir ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cael sgôr 'da' o leiaf gan y rheoleiddiwr;
- Pob plentyn dwy oed ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cael cynnig darpariaeth gofal plant sy'n sgorio'n 'dda' o leiaf
- Lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn gwbl weithredol ac yn cynnig safonau uchel o ofal ac addysgu i'r plant yno; a
- Profiadau rhieni o ymgysylltu â gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar yn gadarnhaol a chynhyrchiol.

## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| **Amcan Lles 7** | Byddwn yn gweithio gyda gwarchodwyr plant a lleoliadau blynyddoedd cynnar ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gofal plant cyffredinol i bob plentyn dwy oed. |

# Thema 12

## Gwasanaethau cymorth ieuenctid a chyfiawnder ieuenctid effeithiol



# T12: Gwasanaethau cymorth ieuenctid a chyfiawnder ieuenctid effeithiol

## Crynodeb

Mae datblygiadau deddfwriaethol megis Deddf Addysg (1996) a Deddf Dysgu a Sgiliau (2000) yn atgyfnerthu'r cyfrifoldebau statudol a roddir ar yr awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed.

O dan adran 40 Deddf Trosedd ac Anrhefn (1998), mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i gyflwyno cynllun cyfiawnder ieuenctid blynyddol sy'n ymwneud â'u darpariaeth o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid a sut y bydd darparu yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac aildroseddu. Rhaid i'r cynllun ymgorffori'r Glasbrint yng Nghymru sy'n ceisio atal plant rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, gan leihau eu cysylltiad â hi a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddargyfeirio, sy'n hanfodol i'w cefnogi i fyw bywydau di-drosedd. Mae hefyd yn anelu at ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr i'w cynorthwyo i wneud iawn am niwed oherwydd troseddau plant.

Mae grwpiau rhanbarthol fel Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru gyfan a Rheolwyr Tîm Troseddau Ieuenctid Cymru yn sicrhau, er eu bod yn gallu ymateb i angen lleol, bod rhannu arfer da a datblygu polisi yn parhau i fod yn hanfodol i waith y ddau wasanaeth.

Wrth symud ymlaen, mae'r ddau wasanaeth yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth bob amser yn canolbwyntio ar y plentyn neu'r person ifanc. Rhaid i ni gydnabod bywydau, hawliau, a photensial unigol, yn hyrwyddo eu cryfderau a'n bod yn mynd ati i geisio casglu lleisiau'r rhai sy'n ceisio ein cymorth i sicrhau bod yr hyn a gynigiwn yn parhau i fod yn berthnasol, yn ymatebol, ac yn bwysicaf oll yn addas at y diben.

I gyflawni'r uchod, byddwn yn gwneud y mwyaf o wasanaethau atal, yn datblygu ymhellach ein dull yn seiliedig ar drawma, cynyddu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc i geisio gwasanaethau yn y ffordd sy'n teimlo mwyaf cyfforddus iddynt hwy, a sichrau bod llais y plentyn yn cael ei glywed a'i ddefnyddio i fod yn sail i'r broses gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaeth.






## Sgôr presennol




## Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- lleihau nifer y rhai sy'n dod i mewn i'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf;
- gwneud gwelliannau sylweddol i Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr (fel yr adroddwyd gan reoleiddwyr);
- cyfraddau aildroseddu is;
- mewnosod cefnogaeth ar gyfer iechyd emosiynol ieuenctid a digartrefedd ieuenctid;
- wedi sefydlu Young People of Pride a Chyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr;
- mwy o ddarpariaeth mynediad agored;
- penodi dau swyddog digidol o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr;
- sicrhau cyllid pontio ar gyfer darpariaeth ieuenctid wedi'i thargedu; a
- gweithredu'r prosiect Urddas Mislif yn llwyddiannus.

## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- nodi'r rhai sydd fwyaf tebygol o droseddu ar y cam cynharaf posibl gan gynnwys gwaith adnabod gydag ysgolion;
- gweithio gydag asiantaethau partner i weithredu dyletswydd trais difrifol lleol;
- datblygu Model Dargyfeirio'r Biwro Ieuenctid;
- darparu ymateb trawma i ddiwallu anghenion yn gynnar;
- ymgorffori a bodloni gofynion adrodd ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol newydd o fis Ebrill 2023;
- lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- datblygu cynnig digidol gwell;
- datblygu'r cynnig urddas mislif ymhellach;
- datblygu 'Fy Llais' a chyfranogiad plant ymhellach;
- gweithredu Prosiectau y Gronfa Ffyniant Gyffredin newydd Ysbrydoli i Weithio+ (I2W+) ac Ysbrydoli i Gyflawni+ (I2A+); a
- cynyddu y ddarpariaeth ieuenctid mynediad agored ymhellach.

## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, byddwn:

- yn sicrhau adnoddau digonol i ddiwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg;
- angen elwa ar bartneriaethau aml-asiantaeth effeithiol; ac
- yn elwa ar staff sydd â chymwysterau addas.

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- oes gwefan ryngweithiol gynhwysfawr a arweinir gan bobl ifanc yn ei lle;
- gostyngiad yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;
- gostyngiad yn nifer y bobl ifanc yn y system troseddol ieuenctid am y tro cyntaf; ac
- os oes gostyngiad yn y cyfraddau troseddu ac ail-droseddu.

## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| **Amcan Lles 1** | Nodi plant sy'n fwy tebygol o droseddu oherwydd eu profiad o drawma ar y pwynt cynharaf a darparu ymateb trawma sy'n diwallu eu hanghenion orau ac yn lleihau ymddygiad troseddol. |
| **Amcan Lles 2** | Byddwn yn cryfhau cysylltiadau rhwng ysgolion a Thîm Cyflogadwyedd a Thîm Dysgu a Datblygu yr awdurdod lleol i sicrhau bod o leiaf 300 yn fwy o ddysgwyr yn datblygu sgiliau ymgeisio a chyfweld ar gyfer prentisiaethau. Bydd Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr yn datblygu cysylltiadau â phrifysgolion a conservatoires i ddatblygu sgiliau pobl ifanc sy'n arwain at swyddi.<br><br>Gwneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed, gan sicrhau bod gan holl gyfranogwyr y prosiect y sgiliau a'r cymwysterau cysylltiedig â gwaith angenrheidiol i lwyddo. |
| **Amcan Lles 6** | Byddwn yn gwella'r cynnig digidol i bobl ifanc drwy gynyddu ein presenoldeb ar-lein. Bydd datblygu gwefan ryngweithiol dan arweiniad ieuenctid a chynnwys cysylltiedig yn sylfaenol i'r cynnig hwn. |





# Thema 13

## Cynnig dysgu ystyrlon i oedolion yn y gymuned

# T13: Cynnig dysgu ystyrlon i oedolion yn y gymuned

## Crynodeb



Y weledigaeth ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw darparu cyfleoedd dysgu ystyrlon o ansawdd uchel i oedolion, a ddarperir mewn lleoliadau cymunedol, i ddiwallu anghenion lleol.

Mae ACL CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda nifer o bartneriaid cyflawni i sicrhau bod y cyfleoedd dysgu oedolion a gynigir ar draws y fwrdeistref sirol yn amrywiol, yn bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr, ac yn cwmpasu'r holl feysydd blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac mewn cydlyniad â fframwaith arolygu Estyn.

Yn ogystal, nod ACL yw cefnogi lles a chynhwysiant cymdeithasol dysgwyr a'i nod yw cynnig cyfleoedd ymgysylltu a dysgu sy'n cefnogi hyn yn llawn. Er mwyn hyrwyddo ymhellach y gwaith o ledaenu cymorth ac adnoddau lles, gweithiodd ACL gyda phartneriaid rhanbarthol ar ddatblygu Pencampwyr Lles, prosiect a gydnabuwyd fel arfer dda mewn adroddiad thematig gan Estyn.

Bydd ACL yn parhau i recriwtio staff ac ymgysylltu â dysgwyr i gyrraedd targedau ariannu, ac i ddarparu ystod eang o gyfleoedd dysgu sector aml-gwricwlaidd o ansawdd dda. Bydd ACL yn gweithio gyda phartneriaid darparu i sicrhau bod y cynnig cyffredinol ar draws y Fwrdeistref Sirol yn ystyrlon ac yn:

- darparu cyfleoedd dysgu i oedolion ennill sgiliau - ar gyfer cyflogaeth, ar gyfer cyfranogiad cymunedol ac ar gyfer dilyniant - yn ogystal â chefnogaeth a gwybodaeth i wella iechyd a lles holl drigolion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;
- codi lefelau llythrennedd a rhifedd oedolion, gan gynnwys yr oedolion hynny nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf;
- lleihau nifer yr oedolion (16+) sy'n NEET;
- ymgysylltu ag oedolion ym mhob rhan o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn enwedig y rhai sydd wedi elwa leiaf o addysg yn y gorffennol neu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o beidio â chael budd yn y dyfodol; a
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.




**Sgôr presennol**




**Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?**

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- datblygu partneriaeth gadarnhaol ac adeiladol i gyfnerthu'r gwaith o gynllunio, darparu, a monitro cyfleoedd dysgu i oedolion;
- derbyn adborth cadarnhaol yn dilyn arolwg Estyn mewn perthynas â gwaith y bartneriaeth, a wnaed ym mis Chwefror 2023;
- gweld 222 o ddysgwyr sy'n oedolion yn elwa ar ddarpariaeth o ansawdd dda yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf; a
- gweithredu cynnig digidol gwell yn llwyddiannus.

## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- cyflwyno o leiaf 20 sesiwn wyneb yn wyneb arall;
- cyflawni cynnydd o 25% mewn cyrsiau/darpariaeth addysg sylfaenol i oedolion;
- cyflawni cynnydd o 50% mewn cyrsiau/darpariaeth gymysg;
- datblygu'r llwyfan partneriaeth a gynigir a hyrwyddo tanysgrifio i randdeiliaid;
- datblygu gweithio rhanbarthol ymhellach; ac
- ymestyn cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, byddwn:

- angen adnabod a chynnig mwy o gyfleoedd am hyfforddiant priodol;
- defnyddio llwyfan dysgu ar-lein i weithredu fel storfa ar gyfer deunyddiau dysgu estynedig/dewis o ddysgu cyfunol;
- angen datblygu llwyfan partneriaeth i hyrwyddo marchnata darpariaeth a gynigir gan bob sefydliad partner yn ganolog;
- gwella recriwtio tiwtorau; a
- sicrhau cyllid priodol i gyflawni rhaglen ddysgu ystyrlon.

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- ydym yn cynnig 25% yn fwy o gyrsiau addysg sylfaenol i oedolion yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n manteisio arnynt;
- ydym yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â dysg drwy gyfrwng y Gymraeg;
- ydym yn cynnig 20 yn fwy o sesiynau wyneb yn wyneb yn arwain at gynnydd yn nifer y bobll sy'n manteisio arnynt; ac
- os ydym yn derbyn gwerthusiadau wedi'u sgorio'n 'dda' o leiaf gan yr holl ddysgwyr.



## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| **Amcan Lles 4** | Byddwn yn cynllunio o leiaf 20 sesiwn wyneb yn wyneb arall fel y nodir gan ddewisiadau dysgwyr. Byddwn hefyd yn cynyddu nifer y sesiynau wyneb yn wyneb 50% yn y cyrsiau cyfunol mewn ymateb i ddewisiadau dysgwyr. |




# Thema 14

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg effeithiol i hyrwyddo’r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg

# T14: Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg effeithiol i hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg

## Crynodeb

Ers mis Medi 2022, mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn gweithredu ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw hyrwyddo amgylchiadau ffafriol ledled yr awdurdod lleol sy'n cefnogi caffael iaith a defnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd mewn trosglwyddo iaith yn y teulu, cyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn, system addysg sy'n darparu sgiliau Cymraeg i bawb, a mwy o werthfawrogiad o sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Ar yr un pryd, rydym wedi ymrwymo i gefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y gwaith, ac wrth gael mynediad at wasanaethau.

Mae Fforwm y Gymraeg mewn Addysg (FfGA) yn cynnwys swyddogion CBS Pen-y-bont ar Ogwr, ysgolion a phartneriaid, sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod targedau'r CSCA yn cael eu cyrraedd.

Neilltuwyd amser i gynllunio mewn is-grwpiau i sicrhau bod cydweithio rhwng pob partner cyflawni. Mae'r is-grwpiau yn gweithio'n effeithiol, gan ganolbwyntio ar y targedau a'r camau gweithredu o fewn cynlluniau datblygu pob is-grŵp. Mae pob is-grŵp wedi cyflawni llawer o dargedau ac ar y trywydd iawn i gyrraedd y targedau erbyn diwedd blwyddyn gyntaf y CSCA.

Wrth symud ymlaen, ein nod yw gwreiddio'r arferion gwaith newydd, cryfhau ein perthynas â phartneriaid ymhellach i sicrhau ein bod yn cyflawni'r targedau a nodir yn y CSCA (2022-2032).

Ers lansio'r Siarter Iaith yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a Siarter Iaith Cymraeg Campus yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg, mae gwaith arloesol wedi'i wneud gan yr ysgol i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o Gymraeg ar draws cymuned gyfan yr ysgol.

Caiff y Gymraeg ei chynnig fel pwnc Lefel A yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. Cefnogir y ddarpariaeth trwy gydweithio rhwng ysgolion.

Mae amrywiol weithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc gymryd rhan ynddynt, i sicrhau y gallant gael profiad o'r Gymraeg fel iaith fyw ac o fewn eu cymunedau. Er enghraifft:

- cysylltiadau â'r Urdd;
- ymweliadau ag ysgolion a sesiynau rheolaidd gyda Cymraeg Bob Dydd;
- cysylltiadau â Menter Iaith Bro Ogwr;
- Eisteddfodau ysgol;
- Diwrnod Shwmae/Dydd Miwsig Cymru;
- ymweliadau/perfformiadau gan Mr Phormula, Candelas a Tudur Clocsio;
- Gwasanaethau Cymraeg;
- anogaeth a hyfforddiant i staff ddefnyddio eu Cymraeg yn eu gwersi cymaint â phosibl;
- gwobrau a roddir i un aelod o staff gan y disgyblion fesul hanner tymor am y defnydd mwyaf o Gymraeg mewn gwersi;
- manteision defnyddio'r Gymraeg i ddisgyblion;
- defnyddio Swogs Cymraeg sy'n ymgynghori ag adran Gymraeg yr ysgol ar gynnwys y dysgu ac yna cyflwyno adran o hyn i'w dosbarthiadau blwyddyn;
- Criw Cymraeg;
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i annog rhieni i ddefnyddio ychydig o Gymraeg; a
- defnyddio Athrawon Bro.




## Sgôr presennol




## Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- datblygu ein CSGA deng mlynedd (2022-2032) sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru;
- datblygu ein CSGA pum mlynedd (2022-2027) sydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru;
- cwblhau adeiladu dwy ganolfan gofal plant cyfrwng Cymraeg;
- sefydlu FfGA ac is-grwpiau llwyddiannus;
- datblygu cynlluniau blynyddol ar gyfer pob un o'r is-grwpiau FfGA;
- sefydlu cyfleuster trochi; ac
- agor Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer dysgwyr ag CAD mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg (Ysgol Cynwyd Sant).



## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- agor dwy ganolfan gofal plant cyfrwng Cymraeg arall;
- cynyddu nifer y plant sy'n mynychu grwpiau 'Ti a Fi';
- cynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 1 a addysgir yn Gymraeg;
- cefnogi'r gweithlu i ddatblygu sgiliau a chymhwysedd yn y Gymraeg;
- agor egin ysgol cyfrwng Cymraeg ym Mhorthcawl;
- cyflwyno dwy ysgol cyfrwng Cymraeg fwy yn ystod Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion;
- gweithredu rhaglen gymorth 'Cymraeg i Blant';
- datblygu darpariaeth trochi hwyr;
- ystyried rhinweddau cynnig cyflwyno dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg;
- sefydlu mwy o gymorth i ddisgyblion sy'n mynychu canolfannau adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg; a
- cynnal gwerthusiad opsiwn safle o Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd.

## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, byddwn:

- sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i ddiwallu'r galw/angen sy'n dod i'r amlwg;
- defnyddio unrhyw gyllid grant sy'n dod ar gael (ar gyfer trochi er enghraifft);
- darparu dysgu proffesiynol ac adnoddau i athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ynghylch y ffordd orau o gefnogi disgyblion sy'n ymuno yn hwyrach ymlaen;
- hwyluso rhannu arfer dda yn y maes hwn ar y cyd â'r Uned Trochi'r Gymraeg yng Nghaerdydd ac unrhyw ddarpariaeth newydd; a
- hyrwyddo a defnyddio'r adnoddau ychwanegol sydd wedi'u creu gan Lywodraeth Cymru yn arbennig ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- ydym yn gwella cymhwysedd iaith Gymraeg pob plentyn ym mhob lleoliad;
- oes cynnydd yn nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael i blant Meithrin sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg;
- oes cynnydd yn nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael i blant Derbyn sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg; a
- chynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY.

## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| Amcan Lles 4 | Byddwn yn rhoi'r holl gamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar waith. |





# Thema 15

## Cyngor iechyd a diogelwch effeithiol i bob maes o fusnes y cyngor (sicrhau gwydnwch a pharhad busnes)

# T15: Cyngor iechyd a diogelwch effeithiol i bob maes o fusnes y cyngor (sicrhau gwydnwch a pharhad busnes)

## Crynodeb

Mae cymorth iechyd a diogelwch effeithiol ar gyfer holl wasanaethau awdurdodau lleol, yn arbennig, mewn ysgolion, yn hynod o bwysig. Yn gyntaf, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i sicrhau iechyd a diogelwch yr holl staff, ac unrhyw un y mae ein gwaith yn effeithio arnynt.

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974) yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch galwedigaethol yn y Deyrnas Unedig. Cyfeirir ati weithiau fel Deddf IDG, Deddf 1974, HSWA, neu HASAWA.

Mae'r Ddeddf yn nodi'r dyletswyddau cyffredinol sydd gan:

- gyflogwyr tuag ar gyfer staff ac aelodau'r cyhoedd;
- staff ar eu cyfer nhw hunain a'i gilydd; ac
- unigolion hunangyflogedig tuag at eu hunain ac eraill.

Er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'n cyfrifoldebau iechyd a diogelwch, mae'n bwysig bod ffocws cryf ar wybodaeth iechyd a diogelwch ar draws y sefydliad a bod pob gwasanaeth ac ysgol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

Bydd y ffocws wrth symud ymlaen ar gydymffurfiaeth a hyfforddiant, gan sicrhau bod y sefydliad mewn sefyllfa dda i gyflawni ei rwymedigaethau i staff a'r cyhoedd nawr ac yn y dyfodol. I wneud hyn, byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth, hyfforddiant, cyfarwyddyd a goruchwyliaeth addas a digonol i staff.

## Polisïau a Chanllawiau

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (Llywodraeth y DU, 1974)
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (Llywodraeth y DU, 1999)
- Polisi Iechyd a Diogelwch Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (Llywodraeth y DU, 2013)
- Canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch




Sgôr presennol




Ble ydym ni eisiau bod erbyn Awst 2026?

## Llwyddiannau hyd yma

Rydym wedi:

- adnewyddu ein canllawiau iechyd a diogelwch;
- ailsefydlu'r Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch a datblygu cynllun gweithredu cysylltiedig;
- darparu cymorth i ysgolion/gwasanaethau/lleoliadau eraill yn amlwg yn ystod pandemig;
- datblygu gwasanaeth ymatebol i ddigwyddiadau; a
- darparu'r system adrodd ar-lein.

## Amcanion gwella

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i:

- gwella cydymffurfiaeth ar draws yr holl wasanaethau/lleoliadau;
- cefnogi ysgolion i ddatblygu asesiadau risg cadarn;
- gwella cydymffurfiaeth contractwyr;
- cynnal adolygiad o systemau adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau;
- asesu cymhwysedd unigol;
- sefydlu cynnig hyfforddiant gwell;
- sicrhau ymgysylltiad mwy effeithiol ag undebau llafur; a
- adolygu model gweithredu presennol yr Uned Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (CHSU).

## Adnoddau

I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, byddwn:

- angen ymgysylltiad rhagweithiol o bob maes darparu a, lle bo'n briodol, defnyddwyr gwasanaeth;
- datblygu deunydd hyfforddiant gwell, gan gynnwys modiwlau ar-lein;
- lansio Polisi Iechyd a Diogelwch corfforaethol newydd;
- monitro'r defnydd o'r system adrodd damweiniau a digwyddiadau ac anelu at wella'r system yn barhaus i sicrhau ei bod yn addas at y diben.

## Dangosyddion llwyddiant

Byddwn yn gwybod os ydym wedi bod yn llwyddiannus os yw:

- yw canran yr archwiliadau pwnc a gwblhawyd yn gwella;
- oes mwy o bobl yn manteisio ar ddatrys damweiniau/digwyddiadau drwy system ar-lein;
- oes gostyngiad mewn damweiniau yn y gwaith; ac
- os oes nifer o bobl yn manteisio ar y cynnig hyfforddiant iechyd a diogelwch.



## Cysylltiad ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028

| | Ymrwymiad Cynllun Corfforaethol 2023-2028 |
|---|---|
| **Amcan Lles 4** | Byddwn yn gweithredu'r holl gamau sydd wedi'u cynnwys yn adrannau perthnasol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. |

# Crynodeb gweithredol

**Ein nod yw sicrhau tegwch a rhagoriaeth i bawb.**

Mae'r cynllun hwn yn nodi cyfeiriad strategol y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc ar gyfer y tair blynedd nesaf. Fe'i lluniwyd ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid a phartneriaid cyflawni er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau pwysig wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r cynllun.

Pwrpas craidd y cynllun yw cefnogi datganiad cenhadaeth y gyfarwyddiaeth:

**Ysbrydoli a chefnogi plant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd i gyflawni canlyniadau gwell; gan arwain at gymunedau llewyrchus, iach, diogel a hapus**

Felly, mae'n hanfodol bwysig bod y cynllun yn cynnal ffocws clir yn gyson ar sicrhau bod y gwasanaethau gorau posibl yn cael eu darparu gan y timau cywir, ar yr adeg gywir, er mwyn sicrhau bod anghenion yr unigolyn yn cael eu diwallu.

Diogelwch yw prif flaenoriaeth y gyfarwyddiaeth o hyd. Mae'r cynllun hwn yn blaenoriaethu'r angen i bolisi ac arferion diogelu ac iechyd a diogelwch effeithiol fod yn hollbresenol ar draws holl weithgarwch y gyfarwyddiaeth. Yr hyn sy'n allweddol i gyflawni'r cynllun hwn yw sicrhau bod lles corfforol a meddyliol ein staff a'r rhai sy'n derbyn ein gwasanaethau yn cael ei flaenoriaethu. Gan weithio gyda phartneriaid, byddwn yn sicrhau bod arferion effeithiol a chymorth priodol ar waith i ddiwallu anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth.

Mae effaith barhaus y pandemig COVID-19 yn sylweddol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r gyfarwyddiaeth wedi gweld dirywiad cyffredinol yn ymddygiad disgyblion, gostyngiad mewn presenoldeb disgyblion, a chynnydd amlwg mewn gwaharddiadau disgyblion. Mae'r cynllun hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn 'yn uniongyrchol' trwy weithio'n agos gydag ysgolion ac asiantaethau eraill fel yr heddlu, i sicrhau gwelliannau cyflym yn ymddygiad a phresenoldeb disgyblion. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r heddlu a phartneriaid eraill i ddatblygu gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid mwy effeithiol i ddarparu cymorth o ansawdd dda i'r rhai sy'n agored i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Mae cynllun yn cyfeirio ar uchelgais y gyfarwyddiaeth i gefnogi a datblygu addysgu a dysgu o ansawdd. Anogir datblygiad addysgeg hynod effeithiol drwy ymholi a gwaith ar y cyd gan arbenigwyr i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn elwa ar addysgu rhagorol ac yn cael y profiadau dysgu gorau posibl. Bydd hyn yn cefnogi datblygiad pellach Cwricwlwm i Gymru, i sicrhau y gall pob dysgwr elwa ar gwricwlwm cyfoethog, eang a chytbwys i sicrhau llwyddiant, safonau uchel a llesiant pob dysgwr.

Mae'r gyfarwyddiaeth yn rhoi gwerth sylweddol ar arweinyddiaeth effeithiol. Mae'r cynllun hwn yn nodi ystod o weithgareddau dros y tair blynedd nesaf i gefnogi arweinwyr ysgol a swyddogion sydd â chyfrifoldeb rheoli. Mae arweinwyr o fewn y gyfarwyddiaeth yn gyfrifol am ddatblygu gweledigaeth gyffredin, uchelgeisiol, gyrru nodau cytunedig yn eu blaen, sicrhau bod safonau drwy ymdrech gyfunol.



Rydym wedi ymrwymo i wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru i gyflawni'r targed o un miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol yw rhaglen unigol bwysicaf y gyfarwyddiaeth. Mae'r gyfarwyddiaeth yn annog ei holl staff yn frwd i chwilio a defnyddio pob cyfle i werthfawrogi a hyrwyddo diwylliant Cymreig ac ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Bydd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion uchelgeisiol Pen-y-bont ar Ogwr yn symud ymlaen yn gyflym dros y tair blynedd nesaf. Yn ystod oes y cynllun hwn, bydd pum ysgol newydd yn cael eu hadeiladu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bydd yr ysgolion newydd hyn yn darparu llawer mwy o leoedd yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgol arbennig newydd o'r radd flaenaf.

Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r flaenoriaeth barhaus y mae'r gyfarwyddiaeth yn ei rhoi ar ddiwallu anghenion pob dysgwr. Yn ganolog i lwyddiant yr uchelgais hwn mae'r ddarpariaeth ragorol y mae dwy ysgol arbennig yr awdurdod lleol a'i uned atgyfeirio disgyblion yn ei darparu. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd y gyfarwyddiaeth yn parhau i gefnogi pob plentyn a pherson ifanc dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r gyfarwyddiaeth yn elwa ar fodel darparu gwasanaeth integredig, llwyddiannus. Rydym yn eiriolwyr angerddol dros waith aml-asiantaeth ac yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau bod gwasanaethau priodol yn cael eu darparu gan y bobl iawn, ar yr adeg gywir, i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae'r cynllun hwn yn nodi ystod eang o gyfleoedd, a ddarperir gan bartneriaid cyflawni lluosog, i sicrhau bod anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu diwallu mewn da bryd. Mae hyn yn cynnwys cynnig darpariaeth dysgu oedolion ystyrlon yn y gymuned, wedi'i dylunio i ddiwallu anghenion oedolion o bob oed sy'n byw yn y fwrdeistref sirol.



## Hunanwerthusiad a chrynodeb uchelgais

| | Sgôr presennol 01/09/23 | Sgôr disgwyliedig 31/08/26 |
|---|---|---|
| T1: Lles | 6 | 9 |
| T2: Presenoldeb, ymddygiad a gwaharddiadau | 4 | 8 |
| T3: Dysgwyr bregus | 6 | 9 |
| T4: Disgyblion ag ADY | 7 | 9 |
| T5: Cwricwlwm ac asesu | 6 | 9 |
| T6: Addysgu a dysgu | 7 | 10 |
| T7: Arweinyddiaeth a llywodraethu | 8 | 10 |
| T8: Diogelu | 8 | 11 |

| | Sgôr presennol 01/09/23 | Sgôr disgwyliedig 31/08/26 |
|---|---|---|
| T9: Moderneiddio ysgolion | 5 | 10 |
| T10: Gwasanaethau cymorth i deuluoedd | 7 | 9 |
| T11: Darpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar | 7 | 10 |
| T12: Gwasanaethau ieuenctid | 7 | 9 |
| T13: Dysgu i oedolion yn y gymuned | 8 | 9 |
| T14: Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg | 7 | 9 |
| T15: Iechyd a diogelwch | 7 | 10 |

# Aliniad polisi a chanllawiau

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1992)
- Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) (2021)
- Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (2023)
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) (2022)
- Cymraeg 2050
- Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011)
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974)
- Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018)
- Cynnig Gofal Plant Cymru (2019)
- Safonau ar gyfer Plant yn y System Cyfiawnder Ieuenctid (2019)
- Fframwaith Cyfiawnder Ieuenctid (2019)
- Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (2017)
- Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2027
- 'Cenhadaeth ein cenedl: Safonau uchel a dyheadau i bawb' (2023)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan (2019)
- Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2022)



# Geirfa

| Byrfodd | Disgrifiad |
|---|---|
| ACL | Dysgu Oedolion yn y Gymuned |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| CADY | Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Deddf ADYTA | Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 |
| DDY | Darpariaeth Dysgu Ychwanegol |
| ASD | Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| CART | Tîm Cyfathrebu a Pherthnasau |
| CMMI | Tîm Synhwyraidd, Tîm Gwybyddiaeth a Dysgu, Tîm Meddygol a Namau Echddygol Cymhleth |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| BIPCTM | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| TYA | Tîm Ymgysylltu Addysg |
| eFSM | Cymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim |
| EHE | Addysg Ddewisol yn y Cartref |
| ELSAs | Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol |
| AHY | Addysg Heblaw yn yr Ysgol |
| GSA | Gwasanaeth Seicoleg Addysg |
| GLIA | Gwasanaeth Lles Addysg |
| I2A+ | Ysbrydoli i Gyflawni (Prosiect Cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin) |
| I2W+ | Ysbrydoli i Weithio (Prosiect Cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin) |
| CDU | Cynllun Datblygu Unigol |
| IFSS | Gwasanaeth Integreiddio Cymorth i Deuluoedd |
| LACE | Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal |

| Byrfodd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CAD** | Canolfan Adnoddau Dysgu |
| **ADC** | Anawsterau Dysgu Cymedrol |
| **MTFS** | Strategaeth Ariannol yn y Tymor Canolig |
| **NEET** | Ddim mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant |
| **NEST** | Fframwaith Meithrin, Grymuso, Diogelu ac Ymddiriedaeth |
| **GDD** | Grant Datblygu Disgyblion |
| **PERMA** | Ymgysylltu Emosiynol Cadarnhaol, Perthnasoedd, Cyflawniadau Ystyrlon |
| **UCD** | Uned Cyfeirio Disgyblion |
| **RADY** | Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Dan Anfantais |
| **CAMG** | Graddfa hunanwerthuso CAMG ganlynol (hynny yw, coch (neu anfoddhaol), ambr (neu foddhaol), melyn (neu dda) a gwyrdd (neu ragorol)) i asesu perfformiad a chynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd. |
| **SCfLP** | Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu |
| **AAA** | Anghenion Addysgol Arbennig |
| **CGY** | Cynllun Gwella Ysgol |
| **SNSAs** | Cynorthwywyr Cymorth Anghenion Arbennig |
| **TAF** | Tîm o Amgylch y Teulu |
| **UPFSM** | Cynnig Cyffredinol Prydau Ysgol Gynradd Am Ddim |
| **FfGA** | Fforwm y Gymraeg mewn Addysg |
| **CSGA** | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
| **YPOP** | Young People Of Pride |

## Amserlen

| Tymor | Gweithgaredd |
|---|---|
| **Tymor yr Hydref 2023** | • Adolygu'r cynnig cwricwlwm 16 i 19 presenol<br>• Datblygu opsiynau i gefnogi defnydd ehangach o gyfleoedd dysgu oedolion ar-lein<br>• Cam 1 y cynllun addysg digidol a luniwyd ar y cyd ar gyfer ysgolion<br>• Olrhain a monitro canlyniadau ôl-16 ar gyfer dysgwyr eFSM yn y tymor hwy<br>• Cynyddu mesurau diogelu gan gynnwys cryfhau rheoliadau ysgolion annibynnol<br>• Cyflwyno Cwricwlwm i Gymru i Flwyddyn 8<br>• Dechrau dilysu Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol<br>• Cyflawni'r pecyn cymorth gyrfa gynnar – cynefino ar gyfer Blwyddyn 3 yn ymarferol<br>• Cynyddu diwrnodau HMS i chwe diwrnod y flwyddyn ar gyfer blynyddoedd ysgol 2022-2023, 2023-2024 a 2024-2025<br>• Ymrwymiad parhaus i ddysgu proffesiynol i gefnogi diwygio ADY<br>• Datblygu a bwrw ymlaen â chynigion interim y Bwrdd Gwaith Ieuenctid<br>• Cyhoeddi canllawiau presenoldeb ac ymgysylltu diwygiedig i gefnogi dysgwyr i gynnal presenoldeb da<br>• Canllawiau ysgolion sy'n peri pryder wedi'u diweddaru yn dod i rym |
| **Tymor y Gwanwyn 2024** | • Paratoi i addysgu cymwysterau 14-16 newydd (dyfarniad cyntaf 2027)<br>• Cyflwyno prydau ysgol am ddim i fwyafrif y dysgwyr ym Mlynyddoedd 5 a 6<br>• Pob ysgol yn mabwysiadu'r categorïau iaith ysgol newydd yn dilyn cyflwyno setiau data CYBLD diwygiedig<br>• Cyhoeddi penderfyniad ar y cynnig 14-16 llawn<br>• Paratoi i addysgu cymhwyster 14-16 newydd (dyfarniad cyntaf 2027)<br>• Cyhoeddi amlinelliadau o fanylebau TGAU newydd<br>• Gweithredu argymhellion adolygu cymwysterau galwedigaethol<br>• Ymgynghori ar ganllawiau drafft gwella ysgolion statudol |
| **Tymor yr Haf 2024** | • Archwiliad 'Cyflwr y Genedl' newydd o lythrennedd a rhifedd oedolion yn dechrau<br>• Adolygu a diweddaru dadansoddiad data gweithlu Cymraeg mewn addysg |

| Tymor | Gweithgaredd |
|---|---|
| **Tymor yr Hydref 2024** | • Ehangu cyfleoedd dysgu gydol oes dan ddyletswydd gyfreithiol newydd<br>• Cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru i Flwyddyn 9<br>• Dechrau rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon wedi'u hachredu yn erbyn meini prawf newydd<br>• Cymeradwyo'r TGAUau cyntaf<br>• Canllawiau statudol ar gyfer gwella ysgol yn dod i rym<br>• Cylchred arolygu newydd Estyn yn dechrau<br>• Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg fwy yn agor<br>• Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn agor<br>• Bloc addysgu â chwe dosbarth mewn ysgol uwchradd yn agor<br>• Cyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (gan gynnwys plant Meithrin)<br>• Mewnosod Strategaeth ADY<br>• Mewnosod Strategaeth Ymddygiad<br>• Datblygu Strategaeth Lesiant<br>• Rhaglen hyfforddiant newydd i ddatblygu gwybodaeth o ddiwygio ADY a'r ffordd orau o gefnogi plant ADY yn dechrau<br>• Cyrsiau wyneb yn wyneb newydd i ymateb i ddewisiadau dysgwyr mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn dechrau |
| **Tymor y Gwanwyn 2025** | • Estyniadau ysgol gynradd yn agor<br>• Ysgol egin cyfrwng Cymraeg yn agor |
| **Tymor yr Haf 2025** | • Gweddill y TGAUau newydd yn cael eu cymeradwyo |
| **Tymor yr Hydref 2025** | • Cyflwyno Cwricwlwm i Gymru i Flwyddyn 10<br>• Y cyntaf o'r TGAUau newydd yn dechrau<br>• Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg fwy yn agor<br>• Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn agor |
| **Tymor y Gwanwyn 2026** | • Adolygu a diweddaru dadansoddiad data gweithlu Cymraeg mewn addysg<br>• Ysgol newydd Pont y Crychydd sydd â chapasiti o 300 yn agor<br>• Gweithredu'r holl gamau yn Strategaeth Hybu'r Gymraeg (2021-2026) |
| **Tymor yr Haf 2026** | • Lansio Cynllun Strategol Addysg a Chymorth i Deuluoedd 2026-2029 |